Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllaw ar y fframwaith cyllido a chynllunio ôl-16

www.cymru.gov.uk



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 121/2013
Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2013

# Canllaw ar y fframwaith cyllido a chynllunio ôl-16

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Ysgolion uwchradd a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol (ALlau), ColegauCymru, Estyn, sefydliadau addysg uwch, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, undebau'r athrawon a'r darlithwyr, cymdeithasau proffesiynol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Cymru, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Canolfannau Cymraeg i Oedolion, Comisiynydd y Gymraeg, Fforymau Cymunedau Ffydd, darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned, y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, darparwyr dysgu seiliedig ar waith, Sefydliadau Sgiliau Sector, Rhwydweithiau 14–19, consortia rhanbarthol a grwpiau perthnasol eraill. |
| **Trosolwg** | Yn y canllaw hwn, ceir amlinelliad o'r trefniadau ar gyfer fframwaith cyllido a chynllunio ôl-16 ar gyfer ALlau, chweched dosbarth mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach. |
| **Camau i'w cymryd** | Gofynnir i'r gynulleidfa nodi cynnwys y ddogfen ganllaw hon a fydd yn dod yn weithredol yn 2013 ac a fydd mewn grym o 2014/2015 ymlaen. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Tîm Cyllido a Chynllunio Ôl-16<br>Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Tŷ'r Afon<br>Heol Bedwas<br>Bedwas<br>Caerffili<br>CF83 8WT<br>e-bost: post16planningandfunding@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae copïau ychwanegol ar gael yn:<br>http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/guide-to-the-framework/?lang=cy |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru* (2012)<br>*Adroddiad cynllunio a chyllido ôl-16: adroddiad terfynol* (2013) |

ISBN digidol 978 1 4734 0495 3
© Hawlfraint y Goron 2013
WG18638

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Gwybodaeth am y canllaw hwn | 1 |
| Adran 1: Cyflwyniad | 2 |
| Adran 2: Trosolwg o’r fframwaith cyllido a chynllunio ôl-16 | 3 |
| Adran 3: Rhaglenni sy'n gymwys | 12 |
| Adran 4: Cyllid | 18 |
| Adran 5: Dysgwyr sy'n gymwys | 24 |
| Adran 6: Monitro ac adrodd | 29 |
| Atodiad A: Acronymau a geirfa | 35 |
| Atodiad B: Amserlen dros dro ar gyfer cyflawni yn 2015/16 | 44 |
| Atodiad C: Meysydd pwnc sector a'u categorïau ail haen | 45 |

# Gwybodaeth am y canllaw hwn

Llawlyfr gweithredol i ddarparwyr sy’n cael cyllid ôl-16 gan yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) (naill ai’n uniongyrchol neu drwy awdurdodau lleol) yw'r canllaw hwn.

Mae’r canllaw hwn yn dangos sut y bydd y fframwaith cyllido a chynllunio ôl-16 yn gweithio o flwyddyn academaidd 2014/15 ymlaen, ac mae wedi'i drefnu fel a ganlyn.

Adran 1: Cyflwyniad

Adran 2: Trosolwg o’r fframwaith cyllido a chynllunio ôl-16

Adran 3: Rhaglenni sy'n gymwys

Adran 4: Cyllid

Adran 5: Dysgwyr sy'n gymwys

Adran 6: Monitro ac adrodd

Atodiad A: Acronymau a geirfa

Atodiad B: Amserlen dros dro ar gyfer cyflawni yn 2015/16

Atodiad C: Meysydd pwnc sector a'u categorïau ail haen

Er mwyn symleiddio’r canllawiau, defnyddir y term 'darparwr' yn hytrach na chyfeirio dro ar ôl tro at sefydliadau addysg bellach (SABau) a chweched dosbarth ysgolion. Yn yr un modd, bydd y term 'dysgwyr' yn berthnasol i ddysgwyr, myfyrwyr a disgyblion.

Trwy’r canllaw defnyddir y confensiynau canlynol i ddynodi’r blynyddoedd cyllido gwahanol ar gyfer awdurdodau lleol (ALlau) ar y naill law a SAB ar y llaw arall.

- Ariennir ALl ar sail blwyddyn ariannol, sy’n rhedeg o 1 Ebrill tan 31 Mawrth y flwyddyn ddilynol. Yn y flwyddyn sy’n dechrau ar 1 Ebrill 2014 caiff hyn ei fynegi fel 2014–15.

- Ariennir ALl ar sail blwyddyn academaidd, sy’n rhedeg o 1 Awst tan 31 Gorffennaf y flwyddyn ddilynol. Yn y flwyddyn sy’n dechrau ar 1 Awst 2014 caiff hyn ei fynegi fel 2014/15.

Dogfen ganllaw yw’r ddogfen hon ac ni ddylid ei hystyried fel datganiad cyflawn nac awdurdodol o’r gyfraith. Ni all unrhyw ganllaw fod yn gwbl gynhwysfawr gan fod amgylchiadau, polisïau, blaenoriaethau a chyllidebau yn newid. O ganlyniad, bwriadwyd hon i fod yn ddogfen waith a gaiff ei diweddaru a’i hadolygu o dro i dro. Bydd y fersiwn ddiweddaraf bob amser ar gael ar-lein yn:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/guide-to-the-framework/?lang=cy

# Adran 1: Cyflwyniad

Ym mis Mai 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei adroddiad terfynol ar yr adolygiad o gyllido a chynllunio ôl-16. Roedd yr adroddiad hwn yn disgrifio sut byddai'r fframwaith newydd yn gweithio, gan ddod i'r casgliad y byddai mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gynllunio a monitro yn y dyfodol.

Prif nod y fframwaith newydd yw llacio'r cyswllt uniongyrchol rhwng gweithgareddau cyllido a dysgu a rhoi pwyslais ar ansawdd y dysgu sy'n cael ei gynnig o ran y deilliannau i ddysgwyr unigol. Rhaglenni yn hytrach na chymwysterau sydd wrth wraidd y fframwaith cyllido a chynllunio newydd; a bydd i bob rhaglen bwrpas a chanlyniad pendant a fydd yn sail i'r gwaith o'i monitro.

Bydd y fframwaith yn:

- parhau â dyraniadau cyllido dangosol tair blynedd er mwyn rhoi sefydlogrwydd a chynorthwyo â chynllunio
- parhau â'r drefn o roi cyllid ychwanegol (ymgodiad) yng nghyswllt amddifadedd, ardaloedd tenau eu poblogaeth a darpariaeth iaith Gymraeg. Bydd hwn yn swm a gaiff ei neilltuo o fewn y dyraniad grant cyffredinol
- safoni'r dull gweithredu yng nghyswllt cynllunio a chyllido rhwng ALlau a SABau
- monitro deilliannau'r dysgu a gynigir i roi gwell dealltwriaeth i ddysgwyr o'r cyfleoedd y gallai'r dysgu hwnnw eu rhoi iddynt.

Bydd y trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno ym mlwyddyn academaidd 2014/15. Bydd y fframwaith yn llywio'r broses ddyrannu ar gyfer ALlau (2014–15) a SABau (2014/15) ac yn weithredol, o safbwynt cynllunio, o hydref 2013 ymlaen.

Yn y flwyddyn gyntaf hon, ni fydd y fframwaith newydd ond yn cael ei ddefnyddio i gyllido darpariaeth chweched dosbarth a darpariaeth SABau. Dros amser, byddwn yn ehangu ei gwmpas i gynnwys dysgu oedolion yn y gymuned a gaiff ei ddarparu gan ALlau, ac addysg bellach a gaiff ei darparu gan sefydliadau addysg uwch.

Mae gan y sectorau dysgu seiliedig ar waith, darpariaeth Cymraeg i Oedolion a rhaglenni addysg uwch eu trefniadau cyllido eu hunain ac nid ydynt o fewn cwmpas y canllaw hwn.

# Adran 2: Trosolwg o'r fframwaith cyllido a chynllunio ôl-16

## Egwyddorion allweddol

Mae'r fframwaith cyllido a chynllunio ôl-16 wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol.

- **Syml:** fel bod modd i ddarparwyr ôl-16 wneud tybiaethau ynghylch cyllido yn y dyfodol at ddibenion cynllunio.
- **Pwrpasol:** Mae'r cyllid a ddyrennir yn adlewyrchu cost y dysgu er mwyn cefnogi darpariaeth effeithiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
- **Cynhwysol:** lluniwyd y cyfraddau cyllid i hybu cynhwysiant ac i ehangu cyfranogiad.
- **Cynaliadwy:** gallu addasu i amgylchedd polisi sy'n newid.
- **Gwneud y defnydd gorau posib o gyllid cyhoeddus:** annog defnyddio adnoddau'n effeithlon.

Mae hefyd yn cwmpasu'r egwyddorion cynllunio canlynol.

- Darparu profiadau a deilliannau addysgol o ansawdd i bob dysgwr.
- Sicrhau cydraddoldeb, hygyrchedd ac amrywiaeth.
- Gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau er mwyn cyfyngu ar ddyblygu'r ddarpariaeth.
- Sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cost.
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hirach.
- Hybu a datblygu darpariaeth iaith Gymraeg.

Nod y fframwaith newydd yw sefydlu dull unedig o gynllunio ar draws y sectorau ôl-16. Lluniwyd ef i lywio penderfyniadau ynghylch datblygu rhaglenni dysgu ôl-16 a dyrannu cyllid, gan sicrhau darpariaeth chweched dosbarth a SABau lwyddiannus yn ein cymunedau. Defnyddir y broses gynllunio hefyd i bennu darpariaeth i ddysgwyr yn unol â blaenoriaethau Gweinidogol.

## Dull gweithredu sy'n seiliedig ar raglenni

Wrth galon y fframwaith newydd mae symud o gymwysterau i raglenni fel y sail ar gyfer cynllunio a chyllido dysgu ôl-16.

Nid yw dysgu seiliedig ar raglenni yn gysyniad newydd. Ers blynyddoedd mae dysgu prentisiaeth wedi bod yn ddull llwyddiannus o gyflenwi rhaglenni dysgu cymeradwy sydd wedi'u dylunio a'u datblygu'n dda. Bydd cyllido rhaglenni, yn hytrach na chyllido cymwysterau'n uniongyrchol, yn ei gwneud yn haws pennu cysylltiadau rhwng cyllid, deilliannau a chyrchfannau ac yn helpu dysgwyr i wneud dewisiadau doeth am eu dysgu.

Crëwyd cyfeiriadur o raglenni cymwys, sy'n rhoi crynodeb o bob rhaglen gymwys, ei diben a'r deilliannau y disgwylir iddi eu cyflawni. O 2014/15 ymlaen, dim ond rhaglenni llawn-amser sydd wedi'u rhestru yn y cyfeiriadur a gaiff eu cyllido. Trafodir y cyfeiriadur rhaglenni yn fanylach yn Adran 3: Rhaglenni sy'n gymwys (tudalen 12).

Yn ogystal â rhaglenni llawn-amser, bydd AdAS yn parhau i gyllido darpariaeth rhan-amser. Trafodir y dull o ariannu rhaglenni rhan amser yn Adran 4: Cyllid (tudalen 18).

## Dull ariannu symlach

Nod y fframwaith newydd yw symleiddio ariannu drwy bennu gwerth ariannu unigol ar gyfer rhaglen a gwreiddio ffactorau cysylltiedig â chadw a chyrhaeddiad ynddi, ar sail patrymau darparu hanesyddol. Bydd gwerthoedd rhaglenni hefyd yn ymgorffori Pwysoliadau Maes Pwnc (PMP) er mwyn adlewyrchu costau darparu cymharol mewn meysydd pynciau sector gwahanol.

Pennir gwerth ariannu unigol ar gyfer pob rhaglen llawn-amser a caiff hwn ei ddefnyddio i gynllunio ac i fonitro sut y defnyddir y cyllid. Bydd y gwerthoedd ariannu hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn modelau darparu neu yng ngofynion rhaglenni ac i annog modelau darparu effeithiol.

Caiff darpariaeth ran-amser ei hariannu ar sail cyfradd fesul awr unigol ar gyfer pob maes pwnc sector. Yn unol â'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer rhaglenni llawn-amser, bydd cyfradd yr awr bob maes pwnc sector yn cynnwys PMP yn ogystal â ffactorau cadw a chyrhaeddiad.

Bydd ALlau a SABau hefyd yn cael dyraniad bloc a fydd yn cynnwys yr ymgodiadau presennol ar gyfer amddifadedd, ardaloedd tenau eu poblogaeth a darpariaeth iaith Gymraeg.

## Dyraniadau ar sail tair blynedd


Ym mis Ionawr 2011, cyhoeddodd AdAS ddyraniadau tair blynedd ar gyfer ALlau a SABau. Roedd y cwantwm ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn bendant, a’r ddau olaf yn ddangosol. Croesawyd y dull hwn gan ddarparwyr gan ei fod yn rhoi syniad pendant o lefelau ariannu a oedd, yn ei dro, yn hwyluso'r gwaith o gynllunio dros y cyfnod o dair blynedd.

Bydd y fframwaith newydd yn parhau â'r dull hwn, gyda dyraniadau'n cael eu cyhoeddi ar sail cyfnod treigl o dair blynedd (un gwirioneddol a dau ddangosol).

## Y cylch cynllunio a chyllido

Mae Ffigur 1 yn dangos prif gamau’r fframwaith newydd (a elwir yn 'gylch’). Mae’r cylch yn cynnwys holl elfennau'r fframwaith newydd, gan gynnwys cynllunio, adrodd, dyraniadau a monitro.

**Ffigur 1: Y cylch cynllunio a chyllido**



## Amserlen y cylch cynllunio a chyllido

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/15, cychwynnodd y cylch ym mis Mai 2013 a bydd yn rhedeg dros gyfnod o tair blynedd tan fis Mawrth 2016 pan gyhoeddir y deilliannau ar gyfer 2014/15.

Isod, nodir yr amserlen dros dro ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/15.

### Cylch cynllunio a chyllido 2014/15

| | |
|---|---|
| Mai 2013 | AdAS yn cyhoeddi blaenoriaethau Gweinidogol strategol ar gyfer SABau yn 2014/15. |
| Gorffennaf 2013 | AdAS yn cyhoeddi canllawiau cynllunio cychwynnol ar gyfer ALlau a SABau ac adroddiadau ar ddarpariaeth rhaglenni, yn cynnwys gwybodaeth am batrymau darparu cyfredol, ar lefel rhaglen. |
| Hydref 2013 | AdAS yn cyhoeddi canllawiau cynllunio wedi'u diweddaru ar gyfer ALlau a SABau, gan gynnwys blaenoriaethau Gweinidogol ar gyfer ALlau; cyfeiriadur rhaglenni wedi'i ddiweddaru a dadansoddiad o ddarpariaeth rhaglenni. |
| | AdAS yn cyhoeddi dyraniadau dangosol ar gyfer 2014–15 (ALlau) a 2014/15 (SABau). |
| Tachwedd 2013 | ALlau a SABau yn cyflwyno cynlluniau darpariaeth dros dro ar gyfer 2014/15, ynghyd â proforma yn rhoi crynodeb o'u hymateb i flaenoriaethau gweinidogol 2014/15. |
| Rhagfyr 2013 | Swyddogion AdAS yn cyfarfod ag ALlau a SABau i drafod cynlluniau darpariaeth dros dro. |
| Ionawr 2014 | AdAS yn cyhoeddi dyraniadau tair blynedd dros dro ar gyfer ALlau a SABau. ALlau a SABau yn cael Amodau Cyllido ar gyfer 2014/15. |
| Mawrth 2014 | ALlau a SABau yn cyflwyno cynlluniau darpariaeth terfynol ar gyfer 2014/15. |
| Ebrill 2014 | ALlau yn dechrau derbyn y cyntaf o 12 taliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2014–15. |
| Awst 2014 | SABau yn dechrau derbyn y cyntaf o 12 taliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15. |
| Tachwedd 2014 | Ciplun monitro mis Tachwedd ('rhewi' data mis Hydref) gan gynnwys cyfrif cynnar o ddysgwyr 2014/15 ar lefel y rhaglen. |

| | |
|---|---|
| Mawrth 2015 | Ciplun monitro mis Mawrth (‘rhewi’ data mis Chwefror), gan gynnwys cyfrif canol blwyddyn o ddysgwyr 2014/15 ar lefel y rhaglen. |
| Gorffennaf 2015 | Dychweleb data fanwl i oleuo’r broses fonitro diwedd blwyddyn. |
| Hydref 2015 | AdAS yn dechrau monitro cyflawniad rhaglenni 2014/15. |
| Mawrth 2016 | AdAS yn cyhoeddi data deilliannau dysgwyr ar gyfer 2014/15. |

Amserlen dros dro yw'r amserlen ar gyfer 2014/15 ac efallai y bydd yn newid yn sgil cyflwyno’r trefniadau cynllunio a chyllido newydd. Gall AdAS gyhoeddi canllawiau ar unrhyw adeg yn ystod y cylch os bydd angen egluro neu ddiwygio’r canllaw hwn neu mewn ymateb i unrhyw faterion sy’n codi.

Er gwybodaeth, nodir yr amserlen dros dro ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16 yn Atodiad B (tudalen 44) i’r canllaw hwn. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16, disgwylir i’r cylch ddechrau ym mis Mai 2014.

## Y cam cynllunio cychwynnol

Mae’r adran hon yn nodi Camau 1 i 3 y cylch cynllunio a chyllido. Mae’n nodi’r broses sydd y tu ôl i lunio’r canllawiau cynllunio cychwynnol a’r canllawiau a ddiweddarwyd a sut y defnyddir y wybodaeth hon i lywio cynlluniau dros dro darparwyr.

Cyn belled ag y bo modd, bydd y canllawiau cynllunio yn hyrwyddo dull gweithredu cyson yng nghyswllt cynllunio darparwyr. Fodd bynnag, bu'n ofynnol inni deilwra’r canllawiau i adlewyrchu amgylchiadau cynllunio a darparu gwahanol ALlau a SABau.

Pennwyd y cylch cynllunio i ddechrau 15 mis cyn bob blwyddyn academaidd. Mewn blwyddyn nodweddiadol, bydd hyn yn dechrau gyda chyhoeddi canllawiau cynllunio cychwynnol ym mis Mai. Yng nghyswllt blwyddyn academaidd 2014/15, mae’r amserlen ychydig yn wahanol, gyda’r canllawiau cynllunio cychwynnol yn cael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2013.

### Cam 1 – Canllawiau cynllunio cychwynnol

Fel rhan o’r cylch, rhennir gwybodaeth am batrymau cyflawni ar ddwy adeg yn ystod y cylch cynllunio 15 mis – sef ym mis Mai a mis Medi bob blwyddyn.

Mae'r cylch cynllunio yn dechrau ym mis Mai bob blwyddyn. Bydd yr AdAS yn cyhoeddi canllawiau ar drefniadau adrodd a chynllunio ar gyfer ALlau a SABau a fydd yn amlinellu'r gofynion ar gyfer y ddau sector ac a fydd yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi cynllunio. Bydd hyn yn cynnwys y blaenoriaethau Gweinidogol strategol yn ogystal ag adroddiadau ar ddarpariaeth rhaglenni, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am batrymau cyflawni, wedi'u casglu ar lefel rhaglen, i ddangos y sefyllfa ar hyn o bryd ar draws ALlau a SABau.

Yn achos darpariaeth alwedigaethol, darperir y wybodaeth hon ar lefel Maes Pwnc Sector lle y nodwyd bod darpariaeth ar gael. Gydag amser, wrth i’r cylch ymwreiddio, caiff yr adroddiadau

hyn ar ddarpariaeth rhaglenni eu diweddaru er mwyn amlygu patrymau cyflawni hanesyddol, presennol ac arfaethedig ar lefel rhaglen.

Caiff y wybodaeth hon ei rhannu ag ALlau a SABau i lywio ystyriaethau cynllunio strategol ac i wahodd sylwadau yng nghyd-destun galw lleol. Bydd y cyfeiriad strategol yn y canllawiau yn adlewyrchu gofynion a chyfarwyddiadau polisi ar draws AdAS. Bydd yn rhoi cyd-destun i SABau, ALlau ac ysgolion gyda chweched dosbarth i ddatblygu darpariaeth, ymgysylltu â chyflogwyr a diwallu anghenion cymunedau.

Ar yr un pryd, bydd AdAS yn ymgysylltu ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid sydd â budd i gasglu a rhannu gwybodaeth am y gofynion sgiliau presennol ac yn y dyfodol.

Cyhoeddwyd y canllawiau cynllunio cychwynnol ar gyfer blwyddyn academaidd 2014/15 ym mis Gorffennaf 2013. Mae copi o'r canllawiau hyn i'w gweld yn:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/arrangements/local-authorities/?lang=cy

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/arrangements/further-education-institutions/?lang=cy

## Cam 2 – Canllawiau cynllunio wedi'u diweddaru

Bydd AdAS yn cyhoeddi nodyn canllaw cynllunio pellach ym mis Medi bob blwyddyn. Bydd y canllawiau cynllunio hyn yn cynnwys templed ar gyfer cyflwyno cynlluniau darpariaeth dros dro ym mis Tachwedd bob blwyddyn, ynghyd â dadansoddiad allanol gan gyrff y sector ar y perfformiad presennol a'r gofynion o ran sgiliau ar gyfer y dyfodol.

Ymhen amser, bydd dadansoddiadau ac adroddiadau ar ddarpariaeth rhaglenni ar gael fel adnodd ar-lein, gyda chyswllt i Wybodaeth berthnasol am y Farchnad Lafur a gwybodaeth gan rwydweithiau 14–19.

I gefnogi ALlau a SABau yn y gwaith o gwblhau eu cynlluniau darpariaeth dros dro ar gyfer 2014/15, mae cyfeiriadur rhaglenni wedi'i ddiweddaru ar gael. Mae hwn yn cynnwys rhestr o'r rhaglenni a'r cynnwys cymwys y gall SAB gyfeirio atynt wrth gwblhau eu cynlluniau.

Mae copi o'r canllawiau cynllunio wedi'u diweddaru ar gyfer 2014/15 ar gael yn:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/arrangements/local-authorities/?lang=cy

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/arrangements/further-education-institutions/?lang=cy

I weld fersiwn ddiweddaraf y cyfeiriadur rhaglenni, ewch i:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/programmes-directory-overview/?lang=cy

## Cam 3 – Cyflwyno cynlluniau darpariaeth dros dro

Ym mis Tachwedd bob blwyddyn, gofynnir i ALlau a SABau gyflwyno cynlluniau darpariaeth dros dro ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol.

Disgwylir i ALI a SAB fapio cofrestriadau arfaethedig yn erbyn rhaglenni cymwys a chyflwyno cynigion ar gyfer darparu rhaglenni ar lefel maes pwnc y sector. Darperir gwerthoedd ariannu ar gyfer rhaglenni cymwys er mwyn galluogi ALlau a SABau i fodelu eu darpariaeth yn erbyn dyraniadau dangosol (i'w cyhoeddi ym mis Hydref 2013).

Hefyd, gofynnir i SABau gyflwyno cynigion ar gyfer darpariaeth ran-amser. Yng nghyswllt 2014/15, bydd y cyflwyniadau hyn yn seiliedig ar oriau cyswllt dan arweiniad. Diweddarwyd y cyfeiriadur rhaglenni i gynnwys cyfres o godau rhaglenni ar gyfer gweithgareddau rhan-amser y gellir cofnodi oriau cyswllt dan arweiniad yn eu herbyn.

Ochr yn ochr â'i gynllun darpariaeth dros dro, bydd angen i bob ALI a SAB gyflwyno ymateb i'r blaenoriaethau gweinidogol strategol a gyhoeddwyd gyda'r canllawiau cynllunio cychwynnol.

Bydd y cyflwyniadau cynllunio hyn yn sail i drafodaethau rhwng AdAS a SABau ac ALlau unigol, a fydd yn cael eu cynnal ym mis Rhagfyr bob blwyddyn.

Bydd trafodaethau ym mis Rhagfyr 2013 yn rhoi'r cyfle i ALlau a SABau drafod eu darpariaeth yn 2013/14, eu cynigion darparu ar gyfer 2014/15 ac i nodi unrhyw ddatblygiadau strategol a allai effeithio ar ddarpariaeth mewn blynyddoedd i ddod.

Gydag amser, wrth i'r cylch adrodd ennill ei blwy, ehangir y trafodaethau cynllunio hyn i gynnwys gwybodaeth am yr union ddarpariaeth yn erbyn y ddarpariaeth arfaethedig a chanlyniadau rhaglenni.

Yng nghyswllt blwyddyn academaidd 2014/15, mae'r AdAS wedi cyhoeddi'r templedi canlynol ar gyfer cyflwyno cynlluniau dros dro ym mis Tachwedd 2013:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/arrangements/local-authorities/?lang=cy

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/arrangements/further-education-institutions/?lang=cy

## Y dull gweithredu o ran dyraniadau

Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi crynodeb o'r drefn ddyrannu.

### Cam 4 – Dyraniadau

Cyhoeddir dyraniadau 2014–15 (ALlau) a 2014/15 (SABau) ym mis Ionawr 2014. Bydd y rhain yn cynnwys dyraniadau cyllid dangosol ar gyfer blwyddyn dau a thri.

Cam cyntaf y broses ddyrannu ar gyfer 2014–15 a 2014/15 yw ail-gyfrifo'r dyraniadau grant presennol i adlewyrchu unrhyw newidiadau o ran demograffeg a chyfraddau aros ymlaen ers 2010[1]. Cynhelir yr ymarferiad hwn yn hydref 2013. Byddwn hefyd yn modelu dyraniadau bloc yng nghyswllt ymgodiadau fel rhan o'r ymarferiad hwn a bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2014.

---

[1] Y set data olaf i gael ei defnyddio fel sail ar gyfer dyraniadau oedd set data 2009/10, gan weithredu fel sail ar gyfer dyraniadau 2010/11.

O 2015–16 a 2015/16 ymlaen, bydd y fethodoleg ddyrannu yn defnyddio cyfartaleddau tair blynedd fel sail ar gyfer dyraniadau, a fydd yn cael eu diweddaru bob blwyddyn. Dylai'r dull hwn osgoi amrywiadau mawr yn y cyllid o flwyddyn i flwyddyn, rhywbeth a gydnabuwyd fel gwendid yn y Fframwaith Cynllunio ac Ariannu Cenedlaethol. Bydd hefyd yn osgoi'r angen i ailbennu dyraniadau sylfaenol bob tair blynedd.

## Cyflwyno cynlluniau terfynol ac adrodd

Mae'r adran hon yn edrych ar Gamau 5 a 6 y cylch cynllunio a chyllido ac yn nodi'r trefniadau ar gyfer adrodd a monitro yn erbyn y ddarpariaeth a gynlluniwyd.

### Cam 5 – Cyflwyno cynlluniau terfynol

Cyn gynted ag y cyhoeddir y dyraniadau, gofynnir i ALlau a SABau ddiweddaru cynlluniau darpariaeth a pharatoi fersiynau terfynol ohonynt erbyn mis Mawrth, gan ystyried unrhyw awgrymiadau a ddarparwyd gan AdAS yn ystod y trafodaethau a gynhaliwyd yn y mis Tachwedd a'r mis Rhagfyr blaenorol.

Dylai ALlau a SABau ystyried sut mae eu cynlluniau yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a, lle bo hynny'n briodol, gofynion o ran sgiliau ar gyfer y dyfodol. Wrth i'r fframwaith aeddfedu, bydd gwybodaeth am berfformiad ar gael i oleuo darparwyr ynghylch pa raglenni sy'n darparu deilliannau llwyddiannus i ddysgwyr a pha raglenni y mae angen edrych arnynt er mwyn mynd i'r afael â diffygion. Bydd yr AdAS yn cyhoeddi templed ar gyfer cyflwyno cynlluniau terfynol 2014/15 ochr yn ochr â'i llythyrau dyrannu ym mis Ionawr 2014.

### Cam 6 – Monitro ac adrodd

Bydd AdAS yn casglu gwybodaeth gan ddarparwyr ôl-16 yn rheolaidd yn ystod y cylch cynllunio ac ariannu. Defnyddir y wybodaeth hon i fonitro sut mae SABau ac ALlau yn perfformio yn erbyn eu cynlluniau darpariaeth ac i weithredu fel sail ar gyfer darparu a dyrannu yn y dyfodol.

Yn unol â'r dull gweithredu ar gyfer cynllunio ac ariannu, ymgymerir â gwaith monitro ac adrodd ar lefel rhaglen. Caiff rhaglenni eu monitro er mwyn deall pa mor effeithiol yw'r dysgu a gynigir yn erbyn eu pwrpas a'u deilliannau diffiniedig. Bydd y broses hon yn amlygu rhaglenni sy'n tanberfformio, ac, o bosib, yn canfod meysydd lle mae galw am ddarpariaeth, neu lle mae darpariaeth yn brin.

Caiff cynnwys a dulliau cyflwyno rhaglenni hefyd eu monitro i sicrhau bod gofynion rhaglenni yn cael eu bodloni a bod gwerthoedd ariannu yn gywir.

Bydd monitro yn digwydd tair gwaith yn y flwyddyn academaidd, sef:

- ym mis Tachwedd (bydd lefel uchel o gasglu data ym mis Hydref yn gweithredu fel sail ar gyfer hyn) – i fonitro cynnydd yn erbyn y ddarpariaeth arfaethedig
- ym mis Mawrth (bydd lefel uchel o gasglu data ym mis Chwefror yn gweithredu fel sail ar gyfer hyn) – i fonitro cynnydd ar ganol y flwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth arfaethedig
- ar ddiwedd y flwyddyn (seilir hwn ar gasglu data manwl ym mis Gorffennaf) – i fonitro:
    - perfformiad yn erbyn cynlluniau terfynol
    - darpariaeth yn erbyn gofynion y rhaglen
    - modelau darparu ar gyfer y rhaglen a lefelau gweithgarwch

- perfformiad y rhaglen yn erbyn y deilliannau datganedig.

Mae rhagor o fanylion am y dull gweithredu yng nghyswllt monitro ac adrodd ar gael yn Adran 6: Monitro ac adrodd (tudalen 29) y canllaw hwn.

# Adran 3: Rhaglenni sy'n gymwys

Yn yr adran hon, nodir y gofynion cymhwyso ar raglenni a chyrsiau yng nghyswllt y fframwaith cynllunio ac ariannu newydd.

Mae’r meini prawf cymhwyso penodol i oedran a phreswylfan wedi’u nodi ar wahân yn Adran 5: Dysgwyr sy’n gymwys (tudalen 24).

## Rhaglenni cymwys

Rhaglenni fydd y prif gyfrwng cynllunio, dyrannu, darparu a monitro dan y fframwaith ariannu newydd. Bydd gan bob rhaglen werth ariannu a gaiff ei ddefnyddio i gynllunio, monitro a rhoi cyfrif am y cyllid a gaiff ei ddefnyddio. Caiff rhaglenni hefyd eu defnyddio i ymgysylltu â sectorau sgiliau a darparwyr allanol ynghylch patrymau darparu Cymru a strategaethau ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth honno i ddiwallu anghenion cyfredol ac anghenion sy’n dod i’r amlwg.

O 2014/15 ymlaen, dim ond rhaglenni cymwys a gaiff eu hariannu. Crëwyd cyfeiriadur o raglenni cymwys, sy'n rhoi crynodeb o bob rhaglen gymwys, ei diben a'r deilliannau y disgwylir iddi eu cyflawni. Trafodir y cyfeiriadur rhaglenni yn fanylach o dan y pennawd cyfeiriadur rhaglenni isod.

## Beth yw rhaglen?

Mae dull seiliedig ar raglenni yn seiliedig ar becyn dysgu sydd â dilyniant i waith neu i addysg uwch fel diben a chanlyniad.

Caiff bob rhaglen llawn-amser ei llunio gyda'r un strwythur mewn golwg, ond bydd gan bob rhaglen ei manyleb ei hun, yn dibynnu ar y math o raglen a'i lefel. Fel arfer, mae pedair elfen i bob rhaglen, sef: yr elfen graidd, prif gymhwyster/cymwysterau, dysgu cymunedol â ffocws diwydiant (CLIF) a phrofiad gwaith. Mae Ffigur 2 (tudalen 13) yn dangos y pedair elfen sydd ym mhob rhaglen llawn-amser.


### Yr elfen graidd

Elfen graidd y rhaglen sy’n datblygu’r sgiliau hanfodol, yn ogystal â darparu'r gweithgareddau cefnogi a chyfoethogi, a fydd yn helpu dysgwyr i ennill y prif gymhwyster a symud ymlaen i waith neu addysg uwch.

Mae’r elfen graidd yn seiliedig ar elfen graidd y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) presennol. I’r rheini nad ydynt yn dilyn CBC, bydd yn cynnwys tri Chymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) ac elfen o amser tiwtorial (o leiaf).

Diffinnir y cymwysterau SHC perthnasol (gan gynnwys sgiliau allweddol ehangach) ar gyfer pob rhaglen a lefel a gallent fod ar lefel wahanol i'r prif gymhwyster/gymwysterau.

**Ffigur 2: Elfennau rhaglen llawn-amser**




## Prif gymhwyster/gymwysterau

Mae pob rhaglen yn cynnwys uchafswm o bedwar prif gymhwyster.

Yn y mwyafrif o raglenni galwedigaethol, diploma gymeradwy neu ddiploma estynedig fyddai'r prif gymhwyster fel arfer ond mae hyblygrwydd i gyfuno hyd at bedwar cymhwyster llai. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw gymwysterau sy'n rhan o'r elfen graidd neu'r CLIF.

Mae'n debyg mai ar lefelau is y gwneir y dewis i ddefnyddio cyfuniad o gymwysterau llai, a chyda dysgwyr iau sydd ddim yn sicr beth yw eu bwriadau o safbwynt gyrfa yn arbennig.

Gall rhaglenni Addysg Gyffredinol gynnwys hyd at bedwar cymhwyster ar lefel A2 ac efallai y bydd meysydd galwedigaethol yn cynnig cyfuniadau gwahanol o ddewisiadau.

## Dysgu cymunedol â ffocws diwydiant (CLIF)

Mae'r elfen CLIF yn golygu y gall darparwyr deilwra cynnwys y rhaglen i ddiwallu anghenion penodol y gymuned, y dysgwr, neu ddiwydiant penodol. Gall hyn gynnwys ailsefyll TGAU neu gymorth ychwanegol â dysgu'r iaith Gymraeg; neu gall fod yn ofyniad penodol i ddiwydiant

megis Tystysgrif Iechyd a Diogelwch gorfodol. Nid oes rhaid achredu dysgu'r elfen hon o'r rhaglen.

Gall darparwyr deilwra'r cymorth sy'n ofynnol i anghenion y dysgwr unigol er mwyn sicrhau'r canlyniad a ddymunir, sef ennill elfennau craidd a phrif gymhwyster y rhaglen.

### Profiad gwaith

Mae'r elfen hon yn caniatáu unrhyw brofiad gwaith ychwanegol sy'n angenrheidiol ar gyfer y rhaglen, ar ben y 30 awr a bennwyd yn elfen graidd Bagloriaeth Cymru. Dim ond yng nghyswllt rhai rhaglenni y bydd angen yr amser hwn, naill ai er mwyn bodloni manyleb y cymhwyster o ran profiad gwaith wedi'i asesu, neu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i symud ymlaen.

## Y cyfeiriadur rhaglenni

Yn y cyfeiriadur rhaglenni, rhestrir y rhaglenni llawn-amser a fydd yn gymwys i gael cyllid yn 2014/15 ynghyd â'r gofynion ar gyfer pob rhaglen gymwys.

Mae fersiwn bresennol y cyfeiriadur rhaglenni yn cynnwys crynodeb o elfen graidd, elfen CLIF ac elfen profiad gwaith pob rhaglen, ynghyd â datganiad yn nodi pwrpas a chanlyniad pob rhaglen ac enghreifftiau o'r prif gymwysterau ym mhob rhaglen gymwys.

Mae'r cyfeiriadur hefyd yn egluro teipoleg a hierarchaeth rhaglenni ac yn nodi cod rhaglen pob rhaglen gymwys. Defnyddir y cod hwn ar gyfer pob agwedd ar gynllunio, ariannu ac adrodd.

Bydd y rhestr o raglenni cymwys a'u helfennau yn agored i'w newid a bydd y cyfeiriadur yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn cynnwys newidiadau i fanylion rhaglenni, rhaglenni sy'n cael eu hychwanegu a rhaglenni sy'n cael eu dileu.

Ar hyn o bryd, nid yw'r cyfeiriadur ond yn cynnwys rhaglenni llawn-amser. Dros amser, caiff ei ehangu i gynnwys rhaglenni llawn-amser a rhaglenni rhan-amser. Yn y cyfamser, bydd y cyfeiriadur yn cynnwys rhestr o godau y dylid eu defnyddio i gofnodi gweithgareddau rhan-amser yn 2014/15.

I weld fersiwn ddiweddaraf y cyfeiriadur rhaglenni, ewch i:
[http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/programmes-directory-overview/?lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/programmes-directory-overview/?lang=cy)

## Bagloriaeth Cymru

Yn yr *Adolygiad o Gymwysterau 14–19,* argymhellwyd mabwysiadu Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol. Roedd yr adolygiad hefyd yn argymell creu Bagloriaeth Cymru graidd newydd a mwy grymus a fyddai'n cael ei graddio.

Caiff y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) diwygiedig ei gyflwyno ym mlwyddyn academaidd 2015/16. Er na fydd ei gyflwyno yn newid y dull gweithredu cyffredinol yng nghyswllt cynllunio ac ariannu, bydd angen diweddaru'r adran hon o'r canllaw a'r cyfeiriadur rhaglenni cyn ei gyflwyno yn 2015.

## Cymwysterau cymeradwy

Cronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy (DAQW) yng Nghymru yw'r prif bwynt cyfeirio ar gyfer pob cymhwyster cymeradwy sy'n gymwys i gael cyllid ôl-16 yng Nghymru o hyd. Gellir mynd at y gronfa ddata drwy ddilyn y  ddolen ganlynol: www.daqw.org.uk/

Rhaid dewis prif gymwysterau rhaglenni dysgu o blith y rheini sydd wedi'u rhestru yn DAQW fel rhai sy'n gymwys i gael cyllid ac sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer eu darparu, a rhaid iddynt ymwneud â maes dysgu'r rhaglen. Yr unig eithriadau yw'r amrywiol lwybrau yn y Ddiploma Mynediad i AU sy'n cael eu rheoleiddio gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

O ganlyniad i'r adolygiad o gymwysterau, bydd AdAS yn defnyddio'r diffiniad Ewropeaidd o IVET a CVET. Ar hyn o bryd, rydym yn cydweithio â chyrff dyfarnu i ddiffinio pob cymhwyster fel Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol (IVET) neu Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Parhaus (CVET). Mae'r lefel briodol ar gyfer y cymwysterau hyn ar gael yn y gronfa ddata o gymwysterau cymeradwy sy'n diffinio'r lefel sy'n addas ar gyfer dysgwr ôl-16.

Y diffiniad o IVET yw addysg a hyfforddiant galwedigaethol cychwynnol, sef addysg a hyfforddiant cyffredinol neu alwedigaethol a ddilynir fel arfer cyn mynd i fyd gwaith. Nid yw'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Diffinnir CVET fel addysg a hyfforddiant galwedigaethol parhaus yr ymgymerir ag ef ar ôl addysg a hyfforddiant cychwynnol, neu ar ôl mynd i fyd gwaith i wella neu i ennill gwybodaeth neu sgiliau er mwyn gallu cymryd cam mewn gyrfa. Mae'r cymhwyster hwn yn arwain at gymhwysedd galwedigaethol.

Bydd canllawiau pellach ar IVET a CVET ar gael yn y diweddariadau i'r cyfeiriadur rhaglenni.

## Darpariaeth ran-amser

Disgwylir i ddysgwyr llawn-amser ddilyn rhaglenni dysgu cymwys, ond bydd AdAS yn parhau i ariannu'r ddarpariaeth cymhwyster sengl rhan-amser fydd ar gael i ddysgwyr rhan-amser.

Bydd y ddarpariaeth ran-amser isod yn gymwys i gael cyllid yn 2014/15.

i. Cymwysterau allanol sy'n ymddangos ar y DAQW sydd wedi cael eu cymeradwyo i'w darparu yng Nghymru.

ii. Cyrsiau learndirect.

iii. Cyrsiau sydd ddim yn arwain at gymhwyster allanol, ac sydd ddim yn gyrsiau learndirect, ond sydd wedi'u hanelu at unigolion rhwng 16 a 24 oed sydd wedi rhoi'r gorau i addysg a hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o wneud hynny.

iv. Rhaglenni nad ydynt wedi'u cynnwys yn (i) i (iii) uchod, sydd wedi'u hanelu at unigolion 19 oed neu hŷn o grwpiau sydd dan anfantais oherwydd eu cefndir, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig a'r rheini sydd wedi'u hallgáu yn gymdeithasol, ac sy'n cymryd eu camau cyntaf yn ôl i fyd addysg neu hyfforddiant.

v. Cyrsiau Mynediad i AU a reoleiddir drwy Gynllun Cydnabod yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

vi. Cyrsiau sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.

vii. Gweithgareddau dysgu, sy'n addas ar gyfer dysgwyr dros oed ysgol gorfodol, sy'n arwain at gynnydd sydd ddim wedi'i ardystio neu ei achredu, cyn belled â'u bod yn gysylltiedig â chanlyniad dysgu.

Nid yw gweithgareddau cyfoethogi ar gyfer pobl ifanc 16–18 oed yn rhan o'r diffiniad yn (vii) uchod gan y bydd y rhain eisoes yn cael eu hariannu drwy elfen CLIF rhaglen ddysgu llawn-amser.

## Darpariaeth nad yw'n gymwys

**Nid** yw'r ddarpariaeth ganlynol yn gymwys i gael cyllid gan AdAS.

i. Rhaglenni llawn-amser sydd ddim yn y cyfeiriadur rhaglenni.

ii. Cyrsiau sydd ddim yn ymddangos ar DAQW sy'n gysylltiedig ag ennill aelodaeth o gyrff proffesiynol.

iii. Cymwysterau nad ydynt wedi'u cymeradwyo. Rhaid i'r cwrs ei hun fod wedi dechrau cyn y dyddiad cymeradwyo terfynol ar y Gronfa. Lle mae dysgwyr wedi'u cofrestru ar gwrs sy'n arwain at gymhwyster sy'n nesu at derfyn ei gyfnod cymeradwy, atgoffir darparwyr mai nhw sy'n gyfrifol am gadarnhau â'r corff dyfarnu bod y cymhwyster ar gael, y dyddiad cofrestru olaf a'r dyddiad ardystio terfynol.

iv. Cyrsiau addysg uwch (AU) rhagnodedig, gan gynnwys:

   a. nodau dysgu ar gyfer hyfforddiant pellach i athrawon neu i weithwyr ieuenctid neu i weithwyr cymdeithasol

   b. nodau dysgu ôl-radd

   c. nodau dysgu gradd gyntaf

   d. nodau dysgu'r Ddiploma AU

   e. graddau Sylfaen

   f. nodau dysgu'r Dystysgrif Addysg

   g. nodau dysgu'r Ddiploma Genedlaethol Uwch neu'r Dystysgrif Genedlaethol Uwch

   h. nodau dysgu unrhyw ddiploma a ddyfernir gan sefydliad AU.

v. Cyrsiau wedi'u hardystio gan brynwyr, oni bai eu bod yn gymwysterau cymeradwy neu'n gymwysterau sydd wedi'u gwreiddio yn y dysgu sy'n ofynnol i ennill cymhwyster cymeradwy ac sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y dysgu hwnnw. Mae enghreifftiau o dystysgrifau gwerthwyr yn cynnwys rhai sy'n cael eu cynnig gan gwmnïau technoleg gwybodaeth sy'n benodol berthnasol i wasanaethau a chynnyrch y cwmnïau hynny.

vi. Sgiliau gyrru sylfaenol a datblygedig.

vii. Hyfforddiant ar gyfer dysgwyr cyflogedig dros 19 oed, a gaiff ei gomisiynu gan gyflogwr ac a gaiff ei gyflwyno dros gyfnod o pump diwrnod neu lai ac y mae'n:

   a. angenrheidiol i gyflogwr ei ddarparu i sicrhau bod ei weithlu (19 oed a hŷn) yn cydymffurfio â gofynion statudol

b. ofynnol i unigolyn ei gael i'w alluogi i wneud ei swydd.

viii. Cyrsiau Hyfforddiant Diogelwch yn y Gweithle[2] ar gyfer dysgwyr cyflogedig.

ix. Unrhyw weithgareddau dysgu eraill a ariennir o ffynonellau eraill, gan gynnwys pob darpariaeth lle gellir adennill y costau cysylltiedig yn llawn.

Drwy eithriad, lle mae'r ddarpariaeth yn (vi) uchod wedi'i chynnwys fel rhan o raglen dysgu ehangach (megis rhaglen llawn-amser) neu'n cael ei darparu fel rhan o brosiect Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) cymeradwy, mae'n bosibl cefnogi'r ddarpariaeth drwy ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru.

[2] Defnyddir y term Hyfforddiant Diogelwch yn y Gweithle i gwmpasu hyfforddiant sydd â'r nod pennaf o gefnogi diogelwch yn y gweithle. I gael rhagor o wybodaeth am yr Hyfforddiant Diogelwch yn y Gweithle sydd ar gael, ewch i http://wefo.wales.gov.uk/publications/guidance/general/6652627/?lang=cy

# Adran 4: Cyllid

Yn yr adran hon, eglurir y drefn ar gyfer ariannu rhaglenni a chyrsiau rhan-amser o 2014/15 ymlaen. Mae unrhyw destun mewn print trwm yn yr adran hon wedi'i ddiffinio yn yr eirfa yn Atodiad A (tudalen 35).

## Ariannu rhaglenni

Pennir gwerth ariannu ar gyfer pob rhaglen yn y cyfeiriadur rhaglenni a caiff hwn ei ddefnyddio i gynllunio, monitro a rhoi cyfrif am y cyllid a ddefnyddir.

Bydd gwerthoedd ariannu yn seiliedig ar nifer yr **oriau cyswllt dan arweiniad** fydd gan bob rhaglen. Bydd y model ariannu yn rhannu oriau cyswllt dan arweiniad bob rhaglen rhwng bob elfen o’r rhaglen cyn gweithredu **Pwysoliadau Maes Pwnc** (PMP) er mwyn pennu cyfanswm yr **oriau pwysedig** ar gyfer pob rhaglen.

Er mwyn cael gwerth £ ar gyfer pob rhaglen, defnyddir cyfradd fesul awr ar gyfer bob awr bwysedig. Wedi'u gwreiddio yn y gyfradd fesul awr hon mae ffactorau **cadw** a **chyrhaeddiad** sy'n seiliedig ar batrymau darparu hanesyddol ar draws y sector ôl-16.

Defnyddir PMP yn y model ariannu i adlewyrchu costau darparu cymharol meysydd pwnc gwahanol. Dewisir pynciau o feysydd pwnc cymeradwy a chaiff cymwysterau eu mapio i’r PMP priodol drwy eu **Cod Gweithgaredd Dysgu**. Mae’r meysydd pwnc hyn a’u **categorïau ail haen** wedi’u rhestru yn Atodiad C (tudalen 45) y canllaw hwn.

Yng nghyswllt rhaglenni galwedigaethol, bydd unrhyw gymhwyster a gaiff ei ddarparu dan yr elfen prif gymhwyster yn denu'r un pwysoliad maes pwnc.

Mae rhaglenni Addysg Gyffredinol yn cynnwys cymwysterau A2, AS a TGAU. Mae cyfuniad y cymwysterau yn dibynnu ar ddewis y dysgwr ac mae nifer y cyfuniadau gwahanol sydd ar gael ar draws Cymru yn sylweddol. Er mwyn symleiddio’r model ariannu, pennwyd PMP o 1.2 ar gyfer pob prif gymhwyster mewn rhaglenni Addysg Gyffredinol. Mae’r pwysoliad hwn wedi'i seilio ar y PMP cyfartalog ar draws pob cymhwyster A2, AS, TGAU a galwedigaethol a ddarparwyd yn 2010[3].

Yn yr enghraifft ganlynol, mae dysgwr yn dilyn rhaglen Addysg Gyffredinol sy'n cynnwys tri chymhwyster AS a CBC.

---

[3] Wedi'i gyfrifo o ddata a gyflwynwyd gan ddarparwyr yn eu ffurflenni CYBLD a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar gyfer 2010.

### Enghraifft 1

Dyma gyfanswm yr oriau pwysedig ar gyfer y rhaglen hon.

| | Cynnwys | Oriau | PMP | Cyfanswm yr oriau pwysedig |
|---|---|---|---|---|
| **Craidd** | 3* SHC<br>Bl 1 CBC | 90<br>45 | 1.00<br>1.00 | 135 |
| **Prif gymwysterau** | 3* Lefel AS | 405 | 1.15 | 465 |
| **Oriau eraill** | | 75 | 1.00 | 75 |
| **Cyfanswm** | | **615** | | **675** |

Yna, lluosir cyfanswm yr oriau pwysedig â'r gyfradd fesul awr i gael gwerth £ y rhaglen.

675 awr x £4.50 = £3,037

Noder os gwelwch yn dda mai at ddibenion enghreifftiol yn unig y defnyddir cyfradd fesul awr o £4.50. Mae'r gyfradd fesul uned ar gyfer 2014/15 eto i'w phennu'n derfynol.

### Enghraifft 2

Yn yr enghraifft hon mae'r dysgwr yn dilyn rhaglen Lefel 3 mewn Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dyma gyfanswm yr oriau pwysedig ar gyfer y rhaglen hon.

| | Cynnwys | Oriau | PMP | Cyfanswm yr oriau pwysedig |
|---|---|---|---|---|
| **Craidd/CBC** | 3* SHC<br>CBC | 90<br>45 | 1.00<br>1.00 | 135 |
| **Prif gymwysterau** | Diploma L3 mewn Gwasanaethau Cyhoeddus | 405 | 1.00 | 405 |
| **Oriau eraill** | | 75 | 1.00 | 75 |
| **Cyfanswm** | | **615** | | **615** |

Cyfanswm y cyllid ar gyfer y rhaglen hon yw £2,768 (615 awr x £4.50).

## Gwerthoedd y rhaglen

Cyhoeddir y cyfraddau ariannu dros dro ar gyfer rhaglenni fel atodiad ar wahân i'r canllaw hwn. Bydd manylion llawn am y dull o bennu gwerthoedd ariannu yn cael eu cynnwys yn yr atodiad hwn, ynghyd â manylion nifer yr oriau cyswllt dan arweiniad a'r PMP sy'n sail i werth bob rhaglen. Mae'r atodiad ar gael i'w lwytho i lawr yn: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/arrangements/funding-arrangements/?lang=cy

Efallai y bydd gwerthoedd rhaglenni yn cael eu diweddaru wrth i raglenni newydd gael eu datblygu neu fel y bydd gofynion rhaglenni a chymwysterau yn newid. Bydd AdAS yn cyhoeddi unrhyw werthoedd newydd, neu ddiwygiadau i werthoedd presennol rhaglenni, ar sail angen drwy'r linc uchod.

## Cymedroli cyllid

Nod y fframwaith newydd yw symleiddio ariannu drwy bennu un gwerth ariannu cyffredin ar gyfer pob rhaglen.

Mae'r AdAS yn cydnabod y bydd gan ddarparwyr unigol fodelau darparu gwahanol ac y bydd lefelau gweithgaredd yn amrywio ychydig o ganlyniad i hynny. Yng ngoleuni hyn, nid oes unrhyw gynlluniau i gymedroli cyllid ar gyfer rhaglenni unigol. Ni ragwelir ychwaith y bydd bob dysgwr sy'n dechrau dilyn rhaglen o ddysgu yn dilyn y rhaglen i'r diwedd ac yn ei chwblhau yn llwyddiannus. Yr oedd y fethodoleg ariannu flaenorol yn cymedroli cyllid ar sail dysgwr unigol, gan arwain at ddull cymhleth o fonitro'r ddarpariaeth yn erbyn targedau. O dan y fframwaith newydd, bydd gwerth rhaglen yn ystyried dysgwyr sy'n rhoi'r gorau iddi neu sy'n cwblhau'r rhaglen yn gynnar. Mae hyn yn golygu y bydd darparwr bob amser yn gwybod faint o gyllid a geir ar gyfer pob carfan o ddysgwyr, ni waeth pa bryd neu os bydd dysgwyr yn rhoi'r gorau i'r rhaglen neu yn ei chwblhau yn gynnar.

## Adolygu gwerthoedd rhaglen

Bydd AdAS yn defnyddio data ar oriau cyswllt dan arweiniad i fonitro lefelau gweithgarwch ac i adolygu gwerthoedd ariannu rhaglenni unigol. Y bwriad yw gwneud hyn bob blwyddyn fel rhan o'r trefniadau monitro diwedd blwyddyn. Mae rhagor o fanylion am y dull gweithredu yng nghyswllt monitro rhaglenni yn Adran 6: Monitro ac adrodd (tudalen 29).

## Darpariaeth ran-amser

Yng nghyswllt 2014/15, caiff darpariaeth ran-amser ei hariannu ar sail cyfradd fesul awr unigol ar gyfer pob maes pwnc sector. Yn unol â'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer rhaglenni llawn-amser, bydd cyfradd yr awr bob maes pwnc sector yn cynnwys Pwysoliadau Maes Pwnc yn ogystal â ffactorau cadw a chyrhaeddiad.

Mae'r cyfraddau fesul awr ar gyfer 2014/15 wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â gwerthoedd rhaglenni yn:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/arrangements/funding-arrangements/?lang=cy

Ar gyfer 2014/15, gofynnir i SABau ac ALlau gyflwyno cynigion ar gyfer darpariaeth ran-amser wedi'u seilio ar oriau cyswllt dan arweiniad. Diweddarwyd y cyfeiriadur rhaglenni i gynnwys cyfres o godau rhaglenni ar gyfer gweithgareddau rhan-amser y gellir cofnodi oriau cyswllt dan arweiniad yn eu herbyn. Dyma'r fframwaith codio.

a. Haen 2 Meysydd Pwnc Sector ar gyfer dysgu galwedigaethol.

b. Haen 1 Meysydd Pwnc Sector ar gyfer dysgu generig.

c. Dysgu TGAU.

Yn ogystal, mae codau gweithgaredd dysgu penodol ar gyfer:

d. TAG 1 Safon Uwch Gyfrannol
e. TAG 2 Safon Uwch Gyfrannol
f. TAG 3 Safon Uwch Gyfrannol
g. TAG 1 Safon Uwch
h. TAG 2 Safon Uwch
i. TAG 3 Safon Uwch.

## Rhaglenni rhan-amser

Yn ystod 2013/14, bydd AdAS yn nodi ac yn pennu gwerthoedd ariannu ar gyfer y cymwysterau hynny sy'n cael eu darparu ar sail ran-amser amlaf. Yn unol â'r dull seiliedig ar raglenni, bydd AdAS yn defnyddio gwybodaeth ynghylch oriau cyswllt dan arweiniad a chyfraddau cadw a chyrhaeddiad i bennu gwerthoedd ariannu ar gyfer darpariaeth ran-amser. Bydd y cyfeiriadur rhaglenni yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd yn ystod 2013/14 fel y bydd gwerthoedd ariannu a chodau rhaglen rhaglenni rhan-amser ar gael.

O gofio faint o ddysgwyr rhan-amser sydd, a'r ystod o gymwysterau sy'n cael eu cynnig, ni fyddai'n bosibl llunio rhaglenni rhan-amser ar gyfer yr holl weithgareddau rhan-amser. Felly, canolbwyntir ar ganfod y cymwysterau sy'n cael eu darparu amlaf er mwyn pennu cyfres o werthoedd ariannu cyffredin ar gyfer y cymwysterau hyn.

## Cofrestru ar fwy nag un rhaglen neu gwrs

Er nad yw'n anarferol i ddysgwr ymgymryd â mwy nag un cwrs rhan-amser mewn unrhyw flwyddyn benodol, ni fyddai'r AdAS yn disgwyl i ddysgwr fod wedi cofrestru ar fwy nag un rhaglen llawn-amser ar yr un pryd.

Yr oedd y fethodoleg ariannu flaenorol yn cynnwys cap ar ddysgwyr unigol oedd wedi'i seilio ar nifer yr oriau cyswllt dan arweiniad. Er y byddai dysgwr yn gallu ymgymryd â mwy o weithgareddau na'r nifer sydd wedi'i nodi yn y cap, byddai'r algorithm ariannu yn eithrio unrhyw weithgarwch y tu hwnt i'r cap yn awtomatig.

Nid yw'r fethodoleg newydd ar gyfer pennu dyraniadau yn uniongyrchol gysylltiedig â nifer y rhaglenni neu'r cyrsiau a gaiff eu cyflawni, ac, felly, nid oes unrhyw gynlluniau i osod cap yn y fethodoleg newydd. Yn hytrach, ceir adroddiad ar ddiwedd bob blwyddyn ar y dysgwyr sy'n ymgymryd â mwy na 700 o oriau cyswllt dan arweiniad mewn unrhyw flwyddyn benodol. Defnyddir y wybodaeth hon i fonitro lefelau gweithgarwch ac, er gwybodaeth i ddarparwyr, os bydd dysgwyr yn ymgymryd â mwy na 700 o oriau dysgu fel mater o drefn, efallai y bydd AdAS yn ystyried ailgyflwyno trefniadau capio yn y blynyddoedd i ddod.

## Cyllid ychwanegol

Roedd y fethodoleg ariannu flaenorol yn cynnwys cyllid ychwanegol er mwyn rhoi ystyriaeth i'r gost ychwanegol o ddarparu mewn ardaloedd o **amddifadedd addysgol**, ardaloedd lle nad oedd llawer o ddysgwyr (**tenau eu poblogaeth**) ac ar gyfer darpariaeth **iaith Gymraeg a**

**dwyieithog**. O dan y fethodoleg newydd, bydd ALlau a SABau yn cael dyraniadau bloc ar gyfer bob un o'r rhain.

O 2014/15 ymlaen, ni roddir cyllid ychwanegol i ALlau a SABau ar gyfer datblygu dysgwyr (ychwanegiad datblygu dysgwyr). Bydd gweithgareddau oedd yn cael eu hariannu gan yr ychwanegiad hwn yn awr yn cael eu hariannu drwy elfen CLIF rhaglenni dysgu llawn-amser.

Yn ystod 2013/14 sefydlir gweithgorau i adolygu'r defnydd o gyllid ychwanegol ar gyfer amddifadedd addysgol ac ardaloedd prin eu poblogaeth. Bydd gwaith y grwpiau hyn yn llywio penderfyniadau ynghylch lefelau ariannu yn y dyfodol ac unrhyw ofynion monitro er mwyn rhoi cyfrif am sut y defnyddir yr arian hwn. Disgwylir i'r grwpiau hyn roi adroddiad mewn pryd ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16.

Mae gwaith wedi dechrau eisoes ar adolygu'r codiadau presennol ar gyfer darpariaeth iaith Gymraeg a dwyieithog a disgwylir i'r gweithgor roi adroddiad ym mis Hydref 2013.

Yng nghyswllt 2014–15 (ALlau) a 2014/15 (SABau), bydd y dyraniadau ar gyfer y codiadau hyn yn seiliedig ar lefelau darparu presennol. Yn y flwyddyn gyntaf hon, disgwylir i ddarparwyr gynnal darpariaeth ar y lefelau presennol.

Bydd darparwyr yn cael gwybod beth yw eu dyraniadau ym mis Ionawr 2014, ynghyd â'r trefniadau ar gyfer casglu a monitro gwybodaeth ar ddefnyddio'r cyllid hwn.

## Cyllid yn erbyn dyraniadau

Mecanwaith i bennu gwerthoedd ariannu rhaglenni llawn-amser a darpariaeth ran-amser yw'r fethodoleg ariannu. Mae'r fethodoleg ariannu ar wahân i'r fethodoleg ddyrannu ac ni chaiff gwerthoedd ariannu eu cyfuno i bennu dyraniadau darparwyr.

Bydd gwerthoedd ariannu yn golygu y bydd ALlau a SABau yn gallu llunio eu darpariaeth ar sail dyraniadau dangosol. Mae'n bosibl y bydd cynlluniau darpariaeth ALlau a SABau yn fwy neu'n llai na'u dyraniad dangosol oherwydd tueddiadau demograffig ac amrywiaeth o ran cyfraddau aros.

Bydd yn rhaid i ALlau a SABau roi cyfrif am unrhyw amrywiadau rhwng eu cynlluniau darpariaeth a dyraniadau dangosol fel rhan o gyflwyno eu cynllun darpariaeth dros dro ym mis Tachwedd bob blwyddyn. Nid yw'r AdAS yn disgwyl gweld gwahaniaethau mawr rhwng y cyllid a gaiff ei ddyrannu a'r ddarpariaeth arfaethedig.

Byddai'r AdAS yn disgwyl y byddai unrhyw amrywiaethau mawr yn cael eu hamlygu ymhell cyn y flwyddyn academaidd dan sylw. Bydd trafodaethau ym mis Rhagfyr 2013 yn rhoi'r cyfle i ALlau a SABau drafod eu darpariaeth yn 2013/14, eu cynigion darparu ar gyfer 2014/15 ac i nodi unrhyw ddatblygiadau strategol a allai effeithio ar ddarpariaeth mewn blynyddoedd i ddod.

## Amodau ariannu

Bydd AdAS yn ffurfio cytundebau grant gyda SABau unigol a phob ALl yng nghyswllt ei ddarpariaeth i ysgolion a gynhelir. Bydd y cytundeb grant yn nodi'r cyllid y mae'r AdAS wedi cytuno i dalu ar gyfer dysgu ôl-16, sut y telir y cyllid ac amodau a thelerau defnyddio'r cyllid yn y

flwyddyn academaidd honno; gan gynnwys y gofynion monitro ac archwilio o ran defnyddio'r cyllid.

Cyhoeddir cytundebau grant bob blwyddyn ochr yn ochr â dyraniadau ALlau a SABau ym mis Ionawr.

# Adran 5: Dysgwyr sy'n gymwys

Yn yr adran hon, ceir canllawiau a fydd yn galluogi darparwyr i bennu i ba raddau y mae dysgwyr yn gymwys i gael cyllid ôl-16 gan AdAS. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r meini prawf cymhwyster o ran 'oedran' a 'phreswylfan' ar gyfer cyllid ôl-16. Mae unrhyw destun mewn print trwm yn yr adran hon wedi'i ddiffinio yn yr eirfa yn Atodiad A (tudalen 35).

At ddibenion ariannu, dylid sefydlu cymhwysedd y dysgwr ar ddechrau ei raglen o ddysgu. I'r dysgwr fod yn gymwys i gael cyllid ar gyfer ei raglen o ddysgu, rhaid bod ganddo'r hawl i fyw yn y **Deyrnas Unedig** (DU). Fel arfer, ni fydd rhywun sy'n destun gorchymyn allgludo'r Swyddfa Gartref yn gymwys i gael cyllid hyd nes y bydd y Swyddfa Gartref yn fodlon bod ei sefyllfa wedi'i datrys, gan na ddylid ond defnyddio'r cyllid ar gyfer dysgwyr a fydd yn gallu cwblhau eu rhaglenni.

## Oed

Mae Adrannau 31–32 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn nodi prif ddyletswyddau Llywodraeth Cymru i sicrhau y darperir cyfleusterau addysg a hyfforddiant priodol i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed ac y darperir cyfleusterau rhesymol ym maes addysg a hyfforddiant i unigolion 19 oed a hŷn.

At ddibenion ariannu, defnyddir y diffiniadau canlynol.

**16 i 18 mlwydd oed**: mae dysgwr 16 i 18 mlwydd oed yn golygu rhywun sy'n 16, 17 neu 18 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn galendr y mae'r dysgwr yn dechrau ei raglen o astudio. Ystyrir dysgwr yn 18 oed hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd y mae'n cael ei ben-blwydd yn 19 oed ynddi. Mae'r diffiniad hwn yn sicrhau nad yw trefniadau ariannu dysgwr 16 i 18 oed yn newid yn ystod rhaglen unigolyn os bydd y dysgwr yn cyrraedd 19 oed yn ystod blwyddyn academaidd.

**19 neu drosodd**: mae dysgwr a gaiff ei ddiffinio fel oedolyn yn 19 mlwydd oed neu hŷn ar 31 Awst yn y flwyddyn galendr y mae'r dysgwr yn dechrau ei raglen o astudio ynddi.

### Dysgwyr oedran ysgol gorfodol (dan 16 oed)

Mae'r paragraffau sy'n dilyn yn nodi'r gofynion yng nghyswllt SABau sydd am gofrestru dysgwr oedran ysgol gorfodol[4].

Mae Deddf Addysg 1996 yn diffinio oedran ysgol gorfodol fel unrhyw oedran rhwng 5 ac 16. Yn ôl Adran 8(3) yr un Ddeddf 'a person ceases to be of compulsory school age at the end of the day which is the school leaving date for any calendar year'. Y dyddiad gadael ysgol presennol yw y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol y mae'r plentyn yn cyrraedd 16 oed.

Mae ALlau yn cael cyllid drwy'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer pob dysgwr o oedran ysgol gorfodol mewn ysgol a gynhelir sydd wedi'i eithrio o'r ysgol neu sy'n cael ei addysg yn rywle arall. Felly, os yw SAB am gofrestru dysgwr oedran ysgol gorfodol, yna dylai'r coleg hwnnw geisio cyllid gan yr awdurdod lleol neu gan yr ysgol os yw hynny'n briodol.

---

[4] Ni fydd y trefniadau'n berthnasol i ddysgwyr 14 i 16 oed sy'n mynychu SABau i ddilyn elfen o'u Llwybr Dysgu 14–19 oed.

Nid yw'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cynllunio ôl-16 a'r fframwaith ariannu yn caniatáu cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd o dan 16 mlwydd oed.

Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu darpariaeth ôl-16 llawn-amser i ddysgwr oedran ysgol gorfodol. Dyma'r amgylchiadau hynny:

i. nid yw'r dysgwr wedi'i gofrestru mewn ysgol, sefydliad addysgol arall neu ALI;
ii. rhaid i'r ddarpariaeth a'r cyfleusterau (addysgu a heb fod yn addysgu) fod yn gydnaws ag oedran, gallu a doniau'r dysgwr;
iii. rhaid i'r rhaglen astudio fod yn addas ar gyfer dysgwyr cyn-16 yn ogystal â dysgwyr ôl-16;
iv. mae rhiant/gofalwr y dysgwr a'r ALI yn gwybod ei fod wedi cofrestru ac yn cytuno â hynny; ac
v. yn achos dysgwr ag anawsterau dysgu a/neu anableddau sy'n dechrau mewn darpariaeth AB, dylai unrhyw Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig sydd wedi pennu addysg uwchradd barhaus y tu hwnt i oedran y dysgwr adeg cofrestru fod wedi cael ei ddiwygio i argymell addysg bellach neu fod wedi peidio â chael ei gynnal gan yr ALI yn unol â Chod Ymarfer AAA Cymru.

Lle mae amgylchiadau o'r fath yn bodoli, dylai SAB ysgrifennu at y Tîm Cyllido a Chynllunio, Llywodraeth Cymru, Tŷ'r Afon, Ffordd Bedwas, Caerffili, CF83 8WT i gael sêl bendith ysgrifenedig i'r cyllid cyn ymrwymo. Ni ragwelir y bydd grwpiau o ddysgwyr yn gymwys i gael cyllid oherwydd, trwy oblygiad, nid yw'r amgylchiadau yn debygol o fod yn eithriadol.

Pan fydd dysgwr dros oedran ysgol gorfodol yn dilyn cwrs o astudiaeth y tu allan i oriau ysgol, sydd ddim yn gysylltiedig â rhaglen llawn-amser y dysgwr yn yr ysgol, (e.e. cofrestru ar gyfer dosbarth nos gyda choleg AB neu ddarparwr Dysgu Cymunedol) efallai y bydd yn gymwys i gael cyllid ôl-16.

## Preswylfan

Yn yr adran hon ceir canllawiau manwl ar yr amodau preswylio sy'n berthnasol wrth bennu cymhwysedd dysgwr unigol ar gyfer cyllid ôl-16.

Mae'r amodau preswylio sy'n berthnasol i gyllid ôl-16 yn seiliedig ar Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 (fel y'i diwygiwyd). Gellir gweld y rhain yn:
www.legislation.gov.uk/wsi/2007/2310/contents/made

Mae'r amodau preswylio sy'n berthnasol i gyllid ôl-16 yr un fath ar draws y sector ôl-16. Mae'r rheolau hefyd yn gyson â'r amodau cymhwysedd a nodwyd yn y Cod Ymarfer: Derbyniadau i Ysgolion a gyhoeddwyd o dan Adran 84 y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion. Mae'r cod hwn mewn lle o hyd a dylid ymgynghori ag ef ynglŷn â derbyniadau i ysgolion. Mae copi o'r cod i'w weld yn:
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/schooladmission/?skip=1&lang=cy

### Dysgwyr sy'n gymwys i gael cyllid

I fod yn gymwys i gael cyllid ôl-16, fel arfer mae'n rhaid i ddysgwr allu bodloni'r tri gofyniad canlynol:

i. ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf ei gwrs (y **dyddiad perthnasol**), mae'r dysgwr yn preswylio fel arfer yn y DU;
ii. ar y dyddiad hwnnw mae'r dysgwr **yn breswylydd sefydlog** yn y DU; ac
iii. am dair blynedd cyn y dyddiad hwnnw, mae'r dysgwr wedi bod yn preswylio fel arfer yn y **DU a'r Ynysoedd** ac nid oedd unrhyw ran o'r cyfnod preswylio hwnnw, yn rhannol nac yn gyfan gwbl, at ddibenion cael addysg llawn-amser.

Wrth gymhwyso'r rheolau hyn, bydd angen i ddarparwyr ystyried y canlynol.

- Bydd dysgwr yn breswylydd sefydlog yn y DU os yw yn preswylio fel arfer ynddi ac os nad oes unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod y mae'n cael aros yma o dan y deddfau mewnfudo.
- Gellir trin dysgwr sydd wedi bod yn byw y tu allan i'r DU oherwydd ei fod ef neu ei deulu yn gweithio dramor dros dro fel rhywun sy'n preswylio yma fel arfer.
- Ni fyddai dysgwr sydd wedi bod yn byw yn y DU at ddibenion cael addysg llawn-amser yn unig, ac a fyddai fel arfer wedi bod yn byw yn rhywle arall, yn bodloni'r gofynion uchod.

Bydd y bobl ganlynol yn gymwys i gael cyllid (mae'r grwpiau hyn yn cyfateb i'r categorïau sydd wedi'u rhestru yn yr Atodlen i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007).

a. Rhywun sy'n **breswylydd sefydlog** yn y DU ac sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y DU a'r Ynysoedd am gyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol.

b. Gwladolyn unrhyw wlad yn yr **Undeb Ewropeaidd** (UE) neu **aelod o deulu unrhyw wladolyn yr UE**, lle mae'r dysgwr wedi bod yn preswylio fel arfer yn **Ardal Economaidd Ewrop** (AEE) am gyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol.

c. **Gweithiwr mudol o AEE** neu **aelod o deulu gweithiwr mudol o AEE**, lle mae'r dysgwr wedi bod yn preswylio fel arfer yn AEE am gyfnod o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol.

d. Unrhyw un sy'n cael ei gydnabod fel **ffoadur** gan Lywodraeth y DU ac sydd wedi bod yn preswylio'n arferol yn y **DU a'r Ynysoedd** ers ennill statws ffoadur, neu **aelod o deulu** rhywun o'r fath.

e. Pobl â statws **diogelwch dyngarol** neu â **chaniatâd yn ôl disgresiwn** neu sydd â **chaniatâd eithriadol i ddod neu i aros yn y DU** neu **aelodau o'u teulu**.

f. Plant i **weithwyr o Dwrci** lle mae'r gweithiwr o Dwrci wedi bod yn gweithio'n gyfreithlon ac yn preswylio yn y DU ar unrhyw adeg yn y gorffennol a lle mae'r dysgwr wedi bod yn preswylio fel arfer yn AEE neu yn Nhwrci am y cyfnod llawn o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol.

g. Plant i **wladolion y Swistir**, lle mae'r dysgwr wedi bod yn preswylio yn AEE am y cyfnod llawn o dair blynedd cyn y dyddiad perthnasol.

h. Dysgwyr sy'n astudio yn y DU dan gytundebau cyfnewid dwyffordd.

Bydd AdAS hefyd yn ystyried gwladolyn o'r tu allan i AEE sydd yn y DU gyda **chaniatâd mewnfudo cysylltiedig â gwaith** yn gymwys i gael cyllid ar ôl iddo fod yn preswylio yn y DU gyda chaniatâd cysylltiedig â gwaith am dair blynedd, neu **aelod o deulu** rhywun o'r fath.

Mae'r AdAS hefyd yn ystyried **ceiswyr lloches** a'u **dibynyddion** yn gymwys i gael cyllid ôl-16 cyn belled â'u bod yn cael cymorth dan yn o'r canlynol.

i. Deddf Mewnfudo a Lloches 1999.
ii. Deddf Plant 1989.
iii. Deddf Cymorth Gwladol 1948.

Bydd ceiswyr lloches y gwrthodwyd lloches iddynt ond sy'n gymwys i gael cymorth dan Adran 4 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, ac sydd wedi cael y cymorth hwnnw, yn gymwys i gael cyllid gan AdAS.

Mae'r AdAS yn ystyried pob ceisiwr lloches rhwng 16 ac 18 oed yn gymwys i gael cyllid, gan gynnwys unrhyw geiswyr lloches digwmni rhwng 16 ac 18 oed sydd wedi cael eu rhoi yng ngofal yr awdurdod lleol.

Yn ogystal â'r grwpiau sydd wedi'u rhestru uchod, bydd y grwpiau canlynol o ddysgwyr yn gymwys i gael cyllid ôl-16.

a. Pobl ifanc 16–18 oed sy'n dod i'r DU ac sy'n Ddinasyddion Prydeinig neu'n Ddinasyddion AEE, neu bobl ifanc 16–18 oed y mae eu pasbortau wedi cael eu harnodi i ddangos bod ganddynt **hawl preswylio** yn y DU.
b. Pobl ifanc 16–18 oed sy'n dod gyda rhieni neu sy'n ymuno â'u rhieni sydd â hawl preswylio neu sydd wedi cael caniatâd i ddod i'r DU neu i aros ynddi (gan gynnwys y rheini sydd wedi cael caniatâd fel **dibynyddion Haen 4**), neu sy'n blant i ddiplomyddion.
c. Pobl ifanc 16–18 oed sy'n ddibynyddion athrawon sy'n dod i'r DU fel rhan o gynllun cyfnewid athrawon.
d. Pobl ifanc 16–18 oed sy'n ddibynyddion i aelodau'r Lluoedd Arfog Prydeinig sy'n gwasanaethu.
e. Pobl sydd wedi ennill statws preswylydd sefydlog yn ddiweddar; sydd wedi cael **caniatâd amhenodol i aros**; **hawl preswylio** neu Ddinasyddiaeth Brydeinig yn y tair blynedd yn union cyn y dyddiad perthnasol.
f. Gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd â statws preswylydd sefydlog sy'n byw yn y DU.
g. Gŵr, gwraig neu bartner sifil gwladolyn AEE sy'n byw yn y DU.

Yn ogystal â'r dysgwyr hynny yn y categorïau sydd wedi'u rhestru uchod, bydd AdAS yn ystyried amgylchiadau eithriadol eraill ar sail bob achos yn unigol. Os ydych chi'n credu y dylai dysgwr gael ei ystyried i gael cyllid oherwydd amgylchiadau eithriadol, cysylltwch â'r AdAS: post16planningandfunding@cymru.gsi.gov.uk

## Dysgwyr o Loegr

Mae dysgwyr sy'n croesi'r ffin i fynychu ysgolion neu sefydliadau AB cyfagos yn gymwys i gael cyllid gan AdAS, yn unol â'r cytundebau dwyffordd anffurfiol gyda'r Asiantaeth Cyllido Addysg a'r Asiantaeth Cyllido Sgiliau. Fodd bynnag, ni ddylai darparwyr fynd ati i farchnata eu darpariaeth i ddysgwyr sy'n hanu o Loegr.

Dylid ystyried dysgwyr o bob cenedl sy'n ddibynyddion aelodau o'r Lluoedd Arfog Prydeinig sy'n gwasanaethu yn gymwys i gael cyllid gydol y cyfnod y byddant yn gwasanaethu ar yr un sail â phobl eraill sy'n preswylio'n gyfreithlon yng Nghymru.

## Dysgwyr sydd ddim yn gymwys i gael cyllid ôl-16

Ni fydd dysgwyr sy'n ymgymryd â rhaglenni llawn-amser sy'n cael eu cyllido'n llawn gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) fel arfer yn gymwys i gael cyllid gan AdAS, gan y bwriadwyd y cyllid i gynnwys eu holl raglenni dysgu. Dylid hawlio pob rhaglen addysgol, ac unrhyw raglen addysgol, ychwanegol sy’n briodol i ddysgwyr unigol drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu, yn achos dysgwyr ar raglenni addysg uwch masnachfraint, eu darparwr addysg uwch llawn-amser.

## Adnoddau darparwyr

Cyfrifoldeb pob sefydliad unigol yw asesu cymhwysedd achosion unigol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch amodau preswylio i ddysgwyr sydd am fanteisio ar ddarpariaeth AB at: post16planningandfunding@cymru.gsi.gov.uk

# Adran 6: Monitro ac adrodd

Un o brif amcanion y fframwaith newydd yw cael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael yn ôl o'u buddsoddiad yn y sector ôl-16 yng Nghymru. I wneud hyn, mae AdAS yn cyflwyno fframwaith monitro ac adrodd a fydd yn casglu gwybodaeth ar lefel rhaglen a fydd yn gweithredu fel sail ar gyfer llywio a dylanwadu darpariaeth yn y dyfodol.

Mae'r AdAS yn llunio model sy'n defnyddio data y mae darparwyr eisoes wedi'i gasglu. Yn hytrach na dibynnu ar gasgliadau data hanesyddol, nod y fframwaith newydd fydd defnyddio gwybodaeth amser real yn fwy effeithiol er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau cynllunio a chyllido yn y dyfodol.

Byddwn yn casglu gwybodaeth gan ddarparwyr dair gwaith yn y flwyddyn academaidd, sef: ym mis Hydref, ym mis Chwefror ac ar ddiwedd y flwyddyn (Gorffennaf). Defnyddir y wybodaeth hon i fonitro sut mae darparwyr yn perfformio yn erbyn eu cynlluniau darpariaeth terfynol ac i fonitro darpariaeth y rhaglen. Bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu ym mis Hydref a mis Chwefror yn wybodaeth 'cyfrif pennau' lefel uchel ond bydd data diwedd y flwyddyn yn cynnwys manylion y cyfan sydd wedi cael ei ddarparu yn y flwyddyn academaidd. Er y gellir codi'r wybodaeth lefel uchel o gyfnodau 'rhewi' penodedig Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ac y gellid casglu'r wybodaeth diwedd blwyddyn adeg 'rhewi'r' gronfa ddata dros dro yn ôl y drefn arferol ar ddiwedd blwyddyn, bydd canllawiau newydd ar gyflwyno data awdurdodau lleol yn cael eu cyhoeddi maes o law. Mae linc i'r gofynion cyflwyno ar gael yn adran cyflwyno data'r canllaw hwn.

Caiff y wybodaeth hon ei chasglu hefyd er mwyn llunio adroddiadau ar ddarpariaeth rhaglenni sy'n tynnu sylw at dueddiadau cofrestru lleol a chenedlaethol. Caiff yr adroddiadau hyn eu rhannu ag ALlau a SABau fel sail ar gyfer cyflwyno cynlluniau darpariaeth. Bydd AdAS hefyd yn rhannu'r adroddiadau hyn â sefydliadau sgiliau sector er mwyn cael cyngor arbenigol ar y gofynion yn y dyfodol o ran sgiliau a blaenoriaethau ar gyfer darparu.

## Monitro yn erbyn cynlluniau darpariaeth

### Ciplun monitro mis Tachwedd

Ym mis Tachwedd bydd AdAS yn monitro gwybodaeth gan ddarparwyr ynghylch pa raglenni sy'n cael eu darparu ac i faint o ddysgwyr. Cesglir y wybodaeth hon yn ystod cyfnod casglu mis Hydref ar ffurf 'cyfrif pennau'. Ni fydd angen cyflwyniad CYBLD neu LLWR llawn ar yr adeg hon.

Caiff y wybodaeth a gaiff ei chyflwyno ym mis Hydref 2014 ei chasglu ar lefel maes pwnc sector a'i rhannu ag ALlau a SABau er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu cynlluniau darpariaeth dros dro ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol (2015/16). Bydd y wybodaeth hon hefyd yn rhoi syniad i'r AdAS ynglŷn â sut mae darparwyr yn perfformio yn erbyn eu cynlluniau darpariaeth ar gyfer 2014/15.

Cynhelir cyfarfodydd adolygu ym mis Rhagfyr bob blwyddyn i drafod cynlluniau datblygu dros dro ALlau a SABau ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol. Drwy gasglu gwybodaeth ym mis Tachwedd, bydd AdAS yn gallu cymharu gwir ddarpariaeth â'r ddarpariaeth arfaethedig a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus am gynlluniau ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol.

Mae Enghraifft 3 yn dangos sut y gellid defnyddio gwybodaeth o giplun monitro Tachwedd i lywio trafodaethau am gynllunio.

**Enghraifft 3**

- Yr oedd cynllun darpariaeth terfynol Darparwr A ar gyfer 2014/15 yn cynnwys 1,000 o raglenni Gweinyddu Busnes Lefel 2.
- Mae ciplun monitro Tachwedd 2014 yn dangos mai dim ond 600 o raglenni sy'n cael eu darparu.
- Yna, mae Darparwr A yn cyflwyno cynnig i ddarparu 1,200 o raglenni Gweinyddu Busnes Lefel 2 yn ei gynllun darpariaeth dros dro ar gyfer 2015/16.

Yn y senario hon, byddai'r AdAS yn cwestiynu pam mae Darparwr A yn ystyried ehangu ei ddarpariaeth ym maes Gweinyddu Busnes. Byddai trafodaethau â Darparwr A yn canolbwyntio ar ddeall y rhesymeg y tu ôl i'r twf arfaethedig yn y ddarpariaeth ac, yn benodol, a oedd prinder darpariaeth yn y maes hwn, ynteu galw.

### Ciplun monitro mis Mawrth

Bydd gwybodaeth 'cyfrif pennau' hefyd yn cael ei fonitro ym mis Mawrth bob blwyddyn. Defnyddir y wybodaeth hon i fonitro cynnydd canol blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth arfaethedig a bydd cyswllt hefyd â chyflwyno cynlluniau darpariaeth terfynol ALlau a SABau ym mis Mawrth bob blwyddyn. Cesglir y wybodaeth hon yn ystod cyfnod casglu mis Chwefror, unwaith eto ar ffurf 'cyfrif pennau'.

### Monitro diwedd blwyddyn

Bydd angen i ALlau a SABau gyflwyno set data LLWR neu CYBLD llawn bob mis Gorffennaf ar gyfer y broses fonitro diwedd blwyddyn. Bydd AdAS yn defnyddio gwybodaeth am niferoedd i fonitro darpariaeth rhaglenni yn ogystal â data ar oriau cyswllt dan arweiniad i fonitro swmp gweithgareddau rhan-amser. Bydd y data diwedd blwyddyn yn dangos yr holl ddarpariaeth a gyflawnwyd yn y flwyddyn academaidd Awst–Gorffennaf. Defnyddir y data hefyd i fonitro'r rhaglenni a ddarparwyd.

## Monitro rhaglenni a ddarparwyd

Caiff rhaglenni eu monitro er mwyn deall pa mor effeithiol yw'r dysgu a gynigir yn erbyn eu pwrpas a'u deilliannau diffiniedig. Bydd y broses hon yn amlygu rhaglenni sy'n tanberfformio, ac, o bosib, yn canfod meysydd lle mae galw am ddarpariaeth, neu lle mae darpariaeth yn brin.

Caiff cynnwys a dulliau cyflwyno rhaglenni hefyd eu monitro i sicrhau bod gofynion cyflawni rhaglenni yn cael eu bodloni a bod gwerthoedd ariannu yn gywir.

Bydd AdAS yn defnyddio gwybodaeth o adroddiadau CYBLD a LLWR diwedd blwyddyn darparwyr i fonitro cyflawniad rhaglenni. Defnyddir y wybodaeth i:

- gadarnhau bod y gofynion o ran cyflawni rhaglenni yn cael eu bodloni
- rhoi sicrwydd bod gwerthoedd ariannu rhaglenni yn briodol
- monitro, adolygu ac archwilio'r posibiliadau o ran modelau cyflwyno mwy effeithiol ar lefel rhaglen

- cymharu allbynnau a chanlyniadau rhaglenni ar lefel darparwr ac ar lefel sector.

Yn Enghraifft 4, mae Darparwr A a B yn cynnig y rhaglen Gweinyddu Busnes Lefel 3. Cyfradd llwyddiant y rhaglen hon ar gyfartaledd ar draws y sector ôl-16 yw 85 y cant.

**Enghraifft 4**

- Mae Darparwr A yn darparu’r rhaglen Gweinyddu Busnes Lefel 3 mewn 650 o oriau cyswllt dan arweiniad.
- Mae Darparwr B yn darparu’r rhaglen Gweinyddu Busnes Lefel 3 mewn 550 o oriau cyswllt dan arweiniad.
- Mae cyfradd llwyddiant Darparwr A yn 90 y cant[5]
- Mae cyfradd llwyddiant Darparwr B yn 70 y cant.

Yn y senario hon, byddai trafodaethau â Darparwr B yn canolbwyntio ar yr hyn y mae’r darparwr yn ei wneud i wella ei gyfradd llwyddiant yn y rhaglen Lefel 3. Byddai'r AdAS yn cwestiynu nifer yr oriau cyswllt dan arweiniad sy'n angenrheidiol i gyflawni'r rhaglen yn llwyddiannus ac yn argymell bod Darparwr B yn siarad gyda Darparwr A er mwyn rhannu arferion gorau yng nghyswllt darparu.

**Enghraifft 5**

Yn yr enghraifft hon, mae Darparwr A a B yn cyflwyno eu rhaglenni Gweinyddu Busnes yn yr un modd ag yn Enghraifft 4 uchod.

- Mae Darparwr A yn darparu’r rhaglen Gweinyddu Busnes Lefel 3 mewn 650 o oriau cyswllt dan arweiniad.
- Mae Darparwr B yn darparu’r rhaglen Gweinyddu Busnes Lefel 3 mewn 550 o oriau cyswllt dan arweiniad.
- Mae cyfradd llwyddiant Darparwr A yn 90 y cant.
- Mae cyfradd llwyddiant Darparwr B yn 90 y cant.

Yn y senario hon, byddai trafodaethau yn canolbwyntio ar sut mae Darparwr B yn gallu cael yr un cyfraddau llwyddiant drwy ddarparu 100 yn llai o oriau cyswllt dan arweiniad. Byddai’r AdAS yn monitro’r oriau cyswllt dan arweiniad ar gyfer y rhaglen hon ar draws pob darparwr, a, lle ceir tystiolaeth bod modd sicrhau cyfraddau llwyddiant uchel gyda llai o oriau cyswllt dan arweiniad, efallai y byddai'n ystyried gostwng cyfradd ariannu rhaglen yn unol â'r gostyngiad mewn gweithgaredd.

**Enghraifft 6**

Yn yr enghraifft olaf hon:

- mae cyfradd llwyddiant Darparwr A yn 60 y cant.
- mae cyfradd llwyddiant Darparwr B yn 60 y cant.

Byddai’r AdAS yn monitro cyfraddau llwyddiant y rhaglen Gweinyddu Busnes ac, os oedd cyfraddau llwyddiant ar draws y sector yn is na'r trothwy derbyniol, byddai'n cyfeirio hyn at sylw'r

[5] Cyfrifir y gyfradd llwyddiant fel nifer y gweithgareddau dysgu a gyflawnwyd wedi’i rannu â nifer y gweithgareddau dysgu a derfynwyd.

rhwydwaith rheolwyr cwricwlwm perthnasol. Byddai'n gofyn i'r rheolwyr cwricwlwm adolygu cynnwys a chyflwyniad y rhaglen er mwyn deall pam mae cyfraddau llwyddiant yn is na'r disgwyl, a, lle bo angen, ailddiffinio'r gofynion o ran cyflawni'r rhaglen.

## Addasiadau monitro

Dylid nodi nad bwriad rhoi'r trefniadau monitro hyn ar waith yw cosbi darparwyr. Yn hytrach, lluniwyd hwynt i gynorthwyo â phrosesau cynllunio darparwyr ac i hwyluso gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei ddarparu a pham.

Defnyddir yr ymarferiadau monitro diwedd blwyddyn ym mis Gorffennaf fel sail ar gyfer cynllunio rhaglenni a phennu gwerthoedd ariannu. Byddant hefyd yn cael eu defnyddio i annog arfer gorau a rhannu safonau'r cwricwlwm. Dim ond mewn amgylchiadau lle mae perfformiad gwan yn parhau y mae gwybodaeth monitro yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar ddyraniadau darparwyr.

Bydd defnyddio'r wybodaeth yn y fframwaith i fonitro darpariaeth fel hyn yn gwella atebolrwydd ac yn darparu tystiolaeth hollbwysig i ddylanwadu ar newid lle bo angen. Bydd hefyd yn rhoi'r wybodaeth i Lywodraeth Cymru a fydd yn ei galluogi i ddeall yr hyn mae'n ei gael yn ôl o fuddsoddi arian cyhoeddus mewn dysgu.

## Deilliannau dysgu

Bydd y fframwaith newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau dysgu. Nid yw'r AdAS bellach yn fodlon ar gael gwybodaeth am gyrhaeddiad a chwblhau yn unig. Rydym am ddeall gwerth y cyrhaeddiad hwnnw yn well drwy werthuso canlyniad y cyflawniad hwn, o ran symud ymlaen i swydd, i addysg uwch neu i ddysgu pellach. Bydd hyn yn rhoi hyder i Lywodraeth Cymru bod cyllid cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi'n ddoeth ac yn arwain at y deilliannau cywir i Gymru.

Caiff asesu deilliannau ei wreiddio fel rhan o'r broses fonitro diwedd blwyddyn ym mis Gorffennaf. Defnyddir hyn i ddatblygu meincnodau ar draws ALlau a SABau ac fel sail ar gyfer modelau cynllunio a darparu rhaglenni. Dros amser, efallai y caiff y wybodaeth hon hefyd ei defnyddio fel sail ar gyfer dyrannu cyllid.

Ar hyn o bryd, defnyddir data a gesglir drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i gyfrifo llwyddiant gweithgareddau dysgu, cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad AB. Cyhoeddir y rhain yn Adroddiadau Deilliannau Dysgwyr colegau unigol bob blwyddyn. Rhagwelir y byddwn yn parhau i gyhoeddi'r dulliau hyn o fesur gweithgareddau dysgu, yn ogystal ag adeiladu ar y dull presennol er mwyn llunio dulliau mesur mwy cyson ar draws addysg bellach a chweched dosbarth ysgolion. Fodd bynnag, cyrchfannau fydd y prif ddull o fesur deilliannau'r rhaglenni dysgu newydd.

Mae'r AdAS wrthi ar hyn o bryd yn llunio dull o fesur cyrchfannau a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer SABau, chweched dosbarth a dysgu seiliedig ar waith, ac a fydd yn galluogi'r AdAS i gyhoeddi gwybodaeth mewn modd tryloyw fel y gwneir yng nghyswllt Adroddiadau Deilliannau Dysgwyr. Ein nod yw rhoi gwybodaeth am ganlyniadau i ddysgwyr, rhieni a'r cyhoedd y gallent ei defnyddio fel sail ar gyfer eu penderfyniadau ynghylch y darparwr a'r rhaglen fwyaf addas ar eu cyfer.

Cyhoeddir gwybodaeth am ddulliau mesur deilliannau cyn blwyddyn academaidd 2014/15. Bydd AdAS yn cyhoeddi ei set gyntaf o ddata ar ganlyniadau ym mis Mawrth 2016.

## Gofynion o ran cyflwyno data

Ar hyn o bryd, mae'r AdAS yn adolygu ei gofynion o ran cyflwyno data i gyd-fynd a'r trefniadau newydd ar gyfer monitro ac adrodd.

Mae manylebion terfynol y LLWR a CYBLD ar gyfer 2014/15 yn cael eu llunio ar hyn o bryd gyda'r nod o'u cyhoeddi ym mis Chwefror 2014. Bydd y rhain ar gael i'w gweld ar dudalennau monitro ac adrodd y wefan yn:
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/arrangements/monitoring-and-reporting-arrangements/?lang=cy

Yn y cyfamser, dylai darparwyr nodi'r dyddiadau allweddol canlynol ar gyfer cyflwyno data yn 2014/15.

- Hydref 2014: gwybodaeth lefel uchel fel sail ar gyfer proses fonitro mis Tachwedd.
- Chwefror 2015: gwybodaeth lefel uchel fel sail ar gyfer proses fonitro mis Mawrth.
- Gorffennaf 2015: dychweleb data fanwl i oleuo'r broses fonitro diwedd blwyddyn.

## Gofynion archwilio

Bydd y gofynion archwilio presennol yn berthnasol i'r broses casglu data diwedd blwyddyn. Bydd angen diwygio nodiadau canllaw i adlewyrchu newidiadau yn y fethodoleg ariannu a bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi maes o law drwy'r linc canlynol.
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/p16planningandfunding/planning-and-funding/arrangements/monitoring-and-reporting-arrangements/?lang=cy

## Adroddiadau ar ddarpariaeth rhaglenni

Bydd AdAS yn cyhoeddi adroddiadau ar ddarpariaeth rhaglenni yn rheolaidd yn ystod y cylch cynllunio ac ariannu. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth am batrymau cyflwyno, a fydd wedi'u casglu ar lefel rhaglen, i ddangos y sefyllfa bresennol ar draws y sector ôl-16.

Ar gyfer 2014/15, mae'r AdAS yn arbrofi gyda'r dull gweithredu a chyflwyno data gyda SABau a sefydliadau'r sector. Caiff fformat a chynnwys adroddiadau ar ddarpariaeth rhaglenni eu mireinio drwy adborth gan ddarparwyr a mesurir ei lwyddiant yn ôl i ba raddau y mae'n cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar drafodaethau cynllunio a chymorth rhwng AdAS ac ALlau a SABau.

Cyhoeddwyd adroddiadau ar ddarpariaeth rhaglenni ym maes darpariaeth alwedigaethol llawn-amser yn 2012/13 a 2013/14 ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r rhain ar gael ar gais gan y Tîm Cyllido a Chynllunio (post16planningandfunding@wales.gsi.gov.uk).

Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu diweddaru yn 2014/15 i gynnwys gwybodaeth am academaidd canol blwyddyn a gasglwyd yn ystod cipluniau monitro mis Tachwedd (rhewi data mis Hydref) a mis Mawrth (rhewi data mis Chwefror). Bydd gwybodaeth diwedd blwyddyn a gasglwyd ym mis Gorffennaf hefyd yn cael ei hychwanegu cyn gynted ag y bydd hi ar gael.

Ym mis Mai bob blwyddyn, ar ddechrau pob cylch cynllunio, bydd AdAS yn rhannu’r adroddiadau diweddaraf ar ddarpariaeth rhaglenni gyda sefydliadau sgiliau sector er mwyn casglu gwybodaeth arbenigol ar yr anghenion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o ran sgiliau yn ogystal â blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth. Bydd AdAS yn casglu’r wybodaeth hon at ei gilydd er mwyn cael dadansoddiad a fydd yn nodi anghenion o ran sgiliau yn y dyfodol ac yn amlygu'r blaenoriaethau ar gyfer darpariaeth ar lefel maes pwnc sector. Darperir y wybodaeth hon ym mis Medi bob blwyddyn er mwyn cyd-daro â Cham 2 y cylch cynllunio a chyllido.

## Atodiad A: Acronymau a geirfa

| | |
|---|---|
| AdAS | Yr Adran Addysg a Sgiliau |
| SABau | Sefydliadau addysg bellach |
| ALlau | Awdurdodau lleol |
| PMP | Pwysoliadau Maes Pwnc |
| LMI | Gwybodaeth am y Farchnad Lafur |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| LLWR | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| NPFS | System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol |
| CBC | Cymhwyster Bagloriaeth Cymru |
| SHC | Sgiliau Hanfodol Cymru |
| CLIF | Dysgu Cymunedol â Ffocws Diwydiant |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| PG | Profiad gwaith |
| DAQW | Cronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru |
| QAA | Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch |
| LSA | Deddf Dysgu a Sgiliau |
| ACL | Dysgu oedolion yn y gymuned |
| AU | Addysg uwch |
| WULF | Cronfa Ddysgu Undebau Cymru |
| SSA | Maes Pwnc Sector |
| TAG | Tystysgrif Addysg Gyffredinol |
| AAA | Anghenion addysgol arbennig |
| DC | Dysgu cymunedol |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| AEE | Ardal Economaidd Ewropeaidd |
| HP | Diogelwch dyngarol |
| DL | Caniatâd yn ôl disgresiwn |
| ELE/ELR | Caniatâd eithriadol i ddod i mewn/i aros |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| ADdD | Adroddiadau ar Ddeilliannau Dysgwyr |

# Geirfa'r canllaw

### Cyrhaeddiad

Dull o fesur perfformiad. O’r holl weithgareddau dysgu a gwblhawyd, y nifer a arweiniodd at ddysgwr yn ennill y cymhwyster yr oedd yn anelu ato.

### Cwblhau

Dull o fesur perfformiad. O’r holl weithgareddau dysgu yr oedd y dysgwr wedi dechrau ei dilyn, y nifer a gwblhawyd (h.y. lle'r oedd y dysgwr yn parhau i fod yno ar ddiwedd y cwrs).

### Cyrchfan/Dilyniant

Gwybodaeth am yr hyn y mae dysgwr yn ei wneud ar ôl cwblhau ei weithgareddau dysgu (e.e. symud ymlaen i addysg bellach ar lefel uwch, cyflogaeth, gwaith gwirfoddol neu hunangyflogaeth).

### Rhaglen gyfun

Rhaglen sy'n cynnwys cyfuniad o gyrsiau Safon Uwch ac Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol (IVET).

### Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Parhaus (CVET)

Addysg neu hyfforddiant ar ôl addysg a hyfforddiant cychwynnol – neu ar ôl mynd i fyd gwaith – sydd â’r nod o helpu unigolion i:

- wella neu ddiweddaru eu gwybodaeth a/neu eu sgiliau
- ennill sgiliau newydd er mwyn cymryd cam newydd yn eu gyrfa neu ailhyfforddi
- parhau â’u datblygiad proffesiynol neu bersonol.

### Amddifadedd addysgol

Gellir diffinio amddifadedd addysgol fel diffyg cefnogaeth, adnoddau neu gyfleoedd i unigolion ymwneud â dysgu, a/neu gyflawni deilliannau dysgu.

Defnyddiwyd maes addysg Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i gael ymgodiad amddifadedd ar gyfer dyraniadau ariannu o fewn y System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol gynt. Roedd y model ariannu yn ychwanegu codiad i'r ddarpariaeth yr oedd dysgwyr oedd yn byw mewn ardaloedd oedd ymhlith y 30 y cant o ardaloedd o’r amddifadedd mwyaf ym maes addysg y Mynegai yn ei ddilyn.

### Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol (IVET)

Addysg a hyfforddiant galwedigaethol cychwynnol a ddilynir cyn mynd i fyd gwaith. Nid yw’n arwain at gymhwysedd galwedigaethol.

## Llwybr Dysgu

Cyfres o raglenni sy'n cynnig llwybr datblygu i ddysgwr.

## Rhaglenni dysgu

Pecyn dysgu â diben clir a deilliannau sydd wedi'u cynllunio, a ddarperir drwy brif gymhwyster a gweithgareddau dysgu ychwanegol fel y nodir yn y Cyfeiriadur Rhaglenni.

## Canlyniad

Yr asesiad diwedd rhaglen o safbwynt i ba raddau y mae'r dysgwr wedi cyflawni dibenion y rhaglen o ddysgu ac i ba raddau y mae'r gallu ganddo i symud ymlaen i ddysgu pellach a chyflogaeth.

## Fframwaith seiliedig ar ganlyniadau

Fframwaith sy'n casglu gwybodaeth am y dysgwr sy'n dangos os llwyddwyd i sicrhau deilliannau'r rhaglen er mwyn iddo allu symud ymlaen.

## Allbwn

Dull mesur meintiol megis nifer y cymwysterau y mae dysgwyr wedi'u hennill neu nifer y cyrsiau y mae darparwyr wedi'u darparu.

## Cyfeiriadur Rhaglenni

Rhestr o raglenni sy'n gymwys i gael cyllid ôl-16. Mae'r cyfeiriadur yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am deitl, cod a lefel rhaglenni, yn ogystal â manylion ynghylch diben a deilliannau, prif gymwysterau cyfredol a'r gofynion o ran maes dysgu'r rhaglen.

## Adroddiad ar Ddarpariaeth Rhaglenni

Adroddiadau sy'n tynnu sylw at batrymau cenedlaethol darpariaeth hanesyddol, gyfredol ac arfaethedig yn erbyn rhaglenni dysgu er mwyn llywio a dylanwadu ar ystyriaethau cynllunio. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi blaenoriaethau strategol yn erbyn tueddiadau darpariaeth cenedlaethol ym maes darpariaeth alwedigaethol.

## Cod rhaglen

Y cod wyth digid a ddefnyddir i ddynodi rhaglen ddysgu benodol.

## Gwerth rhaglen

Gwerth rhaglen o ddysgu mewn £.

## Diben rhaglenni

Y sail resymegol ar gyfer dysgwr sy'n dilyn rhaglen a'r deilliannau lefel uchel o ran dilyniant a chyflogaeth bosibl.

## Cymhwyster

Dyfarniad gan gorff dyfarnu allanol yn dilyn cyfnod o astudiaeth wedi'i dilysu a'i hennill drwy asesiad a/neu arholiadau.

## Cadw

Dull o fesur perfformiad sy'n edrych ar nifer y dysgwyr sy'n gadael cwrs astudiaeth cyn ei gwblhau.

## Meysydd Pwnc Sector

Mae'r Corff Dyfarnu yn pennu cod Maes Pwnc Sector ar gyfer pob cymhwyster sydd wedi'i reoleiddio.

Meysydd Pwnc Sector yw'r dosbarthiadau o feysydd busnes a bennwyd gan yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA) (ar y pryd).

Mae Meysydd Pwnc Sector yn hwyluso dosbarthu rhai pynciau penodol yn ddwy haen.

Haen 1 – grŵp eang o werthoedd, er enghraifft:

1: Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal

Mae Haen 2 yn ddosbarthiad mwy manwl gyda gwerthoedd 50+ ychwanegol, er enghraifft:

1.1: Meddygaeth a Deintyddiaeth.

Mae'r meysydd pwnc sector a'u Haen 2 wedi'u rhestru yn Atodiad C (tudalen 45) y canllaw hwn.

## Teneurwydd poblogaeth

Poblogaeth denau o ddysgwyr o fewn ardal recriwtio darparwr dysgu sy'n cyfyngu ar y cyfleoedd i sicrhau arbedion maint, sy'n gallu achosi diffyg o ran arbedion maint ac sy'n gallu cyfyngu ar arlwy'r cwricwlwm.

Amcan yr ymgodiad oherwydd teneurwydd poblogaeth yw cynnig cymorth ychwanegol i ddarparwyr sydd, oherwydd eu lleoliad, yn methu sicrhau arbedion maint.

## Pwysoliadau Maes Pwnc

Defnyddir Pwysoliadau Maes Pwnc (PMP) i adlewyrchu costau darparu cymharol mewn meysydd pynciau gwahanol. Mae'r PMP yn ymgorffori costau ychwanegol y mae'n rhaid i'r darparwr eu talu, lle maent yn uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau dysgu a/neu sy'n rhesymol eu priodoli i weithgareddau dysgu, megis yng nghyswllt:

- costau cynnal a chadw eiddo
- deunyddiau
- offer

- cyfyngu ar faint grwpiau oherwydd gofynion iechyd a diogelwch neu anghenion cymorth i ddysgwyr ag anawsterau dysgu a/neu anableddau neu anghenion o ran sgiliau sylfaenol
- gymhareb staff/myfyrwyr.

Pennir y pynciau o feysydd pwnc sector y cytunwyd arnynt. Yna, caiff cymwysterau eu mapio i'r PMP priodol drwy'r Cod Gweithgaredd Dysgu perthnasol.

### Cyfradd llwyddiant

Dull o fesur perfformiad. O'r holl weithgareddau dysgu y dechreuwyd arnynt, y nifer a gwblhawyd ac a enillwyd.

### Ymgodiad

Cyllid ychwanegol ar ben y dyraniad cyllid seiliedig ar raglenni er mwyn adlewyrchu'r costau ychwanegol sydd ynghlwm â chynnig darpariaeth mewn ardaloedd o amddifadedd addysgol, ardaloedd lle ceir poblogaeth denau o ddysgwyr (teneurwydd poblogaeth) ac ar gyfer darpariaeth iaith Gymraeg a dwyieithog.

### Cyfrwng Cymraeg

Bwriad yr ymgodiad cyfrwng Cymraeg yw adlewyrchu'r costau ychwanegol sydd ynghlwm â darparu gweithgareddau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni ddylid drysu rhwng hwn a rhaglenni a luniwyd i hybu rhuglder yn yr iaith Gymraeg, megis cyrsiau Cymraeg i Oedolion, neu TGAU neu TAG yn y Gymraeg.

### Oriau cyswllt dan arweiniad

Nifer yr oriau cyswllt ar gyfer addysgu, hyfforddi neu asesu sydd gan raglen neu weithgaredd dysgu.

### Oriau pwysedig

Cyfanswm yr oriau cyswllt dan arweiniad sydd gan raglen, gan gynnwys unrhyw Bwysoliadau Maes Pwnc.

### Cod gweithgaredd dysgu

Gelwir hwn hefyd yn God Cyfeirio Nod Dysgu neu God QAN. Cyfeirnod unigryw cymhwyster.

## Geirfa dysgwyr sy'n gymwys

### Ceisiwr lloches

Rhywun sydd wedi cofrestru cais am loches gydag Asiantaeth Ffiniau'r DU.

## Dibynyddion

Yng nghyswllt ceisiwr lloches, diffinnir y rhain fel gŵr neu wraig, partner sifil, partner di-briod neu bartner o'r unrhyw, neu blentyn dan 18 oed sydd wedi'i gynnwys yn y cais am loches.

## Undeb Ewropeaidd

Yn cynnwys aelod-wladwriaethau canlynol Y Gymuned Ewropeaidd.

Awstria

Gwlad Belg

Bwlgaria

Gweriniaeth Cyprus

Y Weriniaeth Tsiec

Denmarc

Estonia

Y Ffindir (gan gynnwys Ynysoedd Aland)

Ffrainc (gan gynnwys Adrannau Tramor Ffrainc yn Guadeloupe, Martinique, Guiana Ffrengig, Reunion a Saint-Martin)

Yr Almaen (gan gynnwys Heligoland)

Gwlad Groeg

Hwngari

Iwerddon

Yr Eidal

Latfia

Lithwania

Lwcsembwrg

Malta

Yr Iseldiroedd

Gwlad Pwyl

Portiwgal (gan gynnwys yr Ynysoedd Tawel

a Madeira)

Romania

Slofacia

Slofenia

Sbaen ( gan gynnwys yr Ynysoedd Baleares, yr Ynysoedd Dedwydd, Ceuta a Melilla)

Sweden

Y Deyrnas Unedig (gan gynnwys Gibraltar)

Yn ogystal, ystyrir y tiriogaethau tramor dibynnol canlynol yn rhan o'r UE at ddibenion cymhwyster i gael cyllid.

Anguilla; Aruba; Bermuda; Tiriogaeth Antarctig Prydain; Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India; Ynysoedd Prydeinig yr Wyryf; Ynysoedd Cayman; Ynysoedd Ducie ac Oeno; Ynysoedd y Malfinas; Ynysoedd y Faroe; Polynesia Ffrengig; Tiriogaethau Ffrainc y De a'r Antartig; Ynyslas; Ynys Henderson, Mayotte; Montserrat; Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, St Eustatius a St Maarten); Ynysoedd Pitcairn, De Georgia a De Sandwich; St Helena a'i Dibynwledydd, St Pierre et Miquelon; Tiriogaeth Caledonia Newydd a'i Dibynwledydd; Ynysoedd Turks a Caicos  ac Wallis a Futuna.

## Ardal Economaidd Ewropeaidd

Yn cynnwys holl wledydd a thiriogaethau'r UE sydd wedi'u rhestru uchod, ynghyd â'r gwledydd canlynol:

Gwlad yr Iâ
Liechtenstein
Norwy
Y Swistir*

*Er mwyn cadw pethau'n syml i ddarparwyr sy'n gorfod asesu cymhwyster dysgwyr ar gyfer cyllid ôl-16, byddwn yn trin y Swistir fel gwlad sydd o fewn yr AEE. Yn ôl y gyfraith, nid yw'r Swistir yn rhan o'r AEE a gydnabyddir yn ffurfiol, ond mae ei gwladolion yn gymwys dan amryw o gytundebau rhyngwladol sydd wedi'u llofnodi gan lywodraeth y DU a llywodraeth y Swistir.

### Gweithiwr mudol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)

Gwladolyn o'r AEE sy'n weithiwr, heblaw rhywun sy'n gweithio yn un o diriogaethau AEE ond yn byw yn rhywle arall (gweithiwr traws-ffin), yn y Deyrnas Unedig.

Yn ogystal, mae rhai categorïau penodol o bobl, gan gynnwys gweithwyr traws-ffin o'r AEE, gweithiwr traws-ffin hunangyflogedig, neu weithiwr hunangyflogedig o'r AEE, sy'n gymwys i gael cyllid ôl-16. I gael rhagor o wybodaeth am y categorïau hyn, edrychwch ar yr Atodlen i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007.

### Aelod o deulu gweithiwr mudol o'r AEE neu Wladolyn yr UE

Gŵr neu wraig, partner sifil, plentyn neu ŵyr/wyres neu riant neu nain/taid dibynnol gwladolyn yr UE, neu wraig/gwr neu bartner sifil gwladolyn yr UE.

### Caniatâd eithriadol i ddod i mewn/neu i aros (ELE/ELR)

Roedd ELE/ELR yn statws mewnfudo oedd yn cael ei ddefnyddio cyn Ebrill 2003. Rhoddwyd statws o'r fath i geiswyr lloches nad oedd, yn ôl y Swyddfa Gartref, yn bodloni'r diffiniad o ffoadur fel y'i diffinnir yn y Confensiwn ar Ffoaduriaid, ond yr oedd y Swyddfa Gartref wedi penderfynu y dylai gael aros yn y DU am resymau eraill.

### Caniatâd i aros yn ôl disgresiwn (DL)

Caniatâd i aros yn y DU am resymau eithriadol. Weithiau rhoddir y statws hwn i rywun sydd ddim yn gymwys i gael lloches ond a ddylai, ym marn y Swyddfa Gartref, gael aros am resymau eraill.

### Diogelwch dyngarol (HP)

Gwarchodaeth sy'n cael ei roi i rywun dan delerau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid yw hyn yr un fath â lloches, sy'n statws na ellir ond ei roi i'r rheini sy'n ffoi rhag erledigaeth, dan delerau Confensiwn 1951 y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid. Gall y Swyddfa Gartref roi diogelwch dyngarol i rywun nad yw'n credu ei fod yn gymwys i gael lloches os ydy'r Swyddfa Gartref o'r farn bod rhesymau dyngarol dros ganiatáu i'r unigolyn hwnnw aros yn y Deyrnas Unedig.

### Aelod o deulu rhywun sydd â statws DL neu HP

Rhywun sy'n ŵr neu'n wraig, yn bartner sifil, neu'n blentyn i rywun sydd â statws DL neu HP; neu blentyn neu ŵr/gwraig neu bartner sifil rhywun sydd â statws DL neu HP. Rhaid i'r aelod o deulu unigolyn o'r fath fod wedi bod yn aelod o'i deulu ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur ei gais am loches. Yn ogystal, rhaid i blentyn y ffoadur neu blentyn gŵr/gwraig neu bartner sifil y ffoadur

neu lysblentyn rhywun sydd â statws DL neu HP fod wedi bod dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth yr unigolyn gais am loches.

### Caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros (ILE/ILR)

Caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu i aros yno heb unrhyw gyfyngiadau ar hyd eu harhosiad.

### Caniatâd i ddod i mewn neu i aros

Rhywun sydd wedi cael gwybod gan y Swyddfa Gartref nad yw'n gymwys i gael ei gydnabod fel ffoadur (gweler y diffiniad isod), ond ei fod, serch hynny, yn cael caniatâd i aros yn y DU. Fel arfer, mae unigolyn o'r fath yn cael statws Diogelu Deyrngarol neu Ganiatâd i Aros yn ôl Disgresiwn (DL).

### Preswylio fel arfer

Diffinnir hyn fel rhywun sy'n preswylio fel rheol ac fel arfer yn y DU o ddewis ac am bwrpas penodol gydol y cyfnod a bennwyd ar wahân i absenoldebau achlysurol neu dros dro.

### Dyddiad perthnasol

Mae'r term 'dyddiad perthnasol' yn cyfeirio at 'ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd (neu flwyddyn addysgu) gyntaf  y cwrs'. Diffinnir hyn fel:

a. 1 Medi os yw'r flwyddyn academaidd yn dechrau rhwng 1 Awst a 31 Rhagfyr

b. 1 Ionawr os yw'r flwyddyn academaidd yn dechrau rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth

c. 1 Ebrill os yw'r flwyddyn academaidd yn dechrau rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin

d. 1 Gorffennaf os yw'r flwyddyn academaidd yn dechrau rhwng 1 Gorffennaf a 31 Gorffennaf.

### Hawl preswylio

Yr hawl i fyw ac i weithio yn y Deyrnas Unedig.

### Statws preswylydd sefydlog

Rhywun sy'n breswylydd sefydlog yn y Deyrnas Unedig yn ôl ystyr hynny yn adran 33(2A) Deddf Mewnfudo 1971; mewn geiriau eraill, rhywun sydd naill ai wedi cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r DU ac aros yno (ILE/ILR) neu sydd â hawl preswylio yn y DU. Mae gan ddinasyddion Prydeinig a rhai pobl benodol eraill hawl i breswylio yn y DU, gan gynnwys:

- y rheini sydd â phasbort y Gymuned Ewropeaidd-Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon
- Dinasyddion Tiriogaethau Dibynnol Prydain (a elwir bellach yn Ddinasyddion Tiriogaethau Tramor Prydain)
- y rheini sydd â phasbort wedi'i arnodi i ddangos bod ganddynt hawl preswylio yn y DU
- y rheini sydd â thystysgrif frodori neu dystysgrif cofrestru fel Dinesydd Prydeinig.

## Ffoadur

Rhywun y mae'r Swyddfa Gartref yn ei gydnabod fel ffoadur yn ôl y disgrifiad o hynny yng Nghonfensiwn Genefa 1951. Fel arfer, mae rhywun sy'n cael statws ffoadur yn cael caniatâd i aros yn y DU am bum mlynedd, ac, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, gall wneud cais am ganiatâd amhenodol i aros (gweler 'Caniatâd amhenodol i aros' isod).

## Aelod o deulu ffoadur

Rhywun sy'n ŵr neu'n wraig, yn bartner sifil, neu'n blentyn i rywun sydd â statws ffoadur; neu blentyn neu ŵr/gwraig neu bartner sifil rhywun sydd â statws ffoadur.

Rhaid i'r aelod o deulu'r ffoadur fod wedi bod yn aelod o'i deulu ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur ei gais am loches.

Yn ogystal, rhaid i blentyn y ffoadur neu blentyn gŵr/gwraig neu bartner sifil y ffoadur neu lysblentyn rhywun sydd â statws ffoadur fod wedi bod dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur gais am loches.

## Gweithiwr o'r Swistir

Gwladolyn o'r Swistir sy'n weithiwr, heblaw gweithiwr traws-ffin o'r Swistir, yn y Deyrnas Unedig.

Yn ogystal, mae rhai categorïau penodol o bobl, gan gynnwys gweithwyr traws-ffin o'r Swistir, gweithiwr traws-ffin hunangyflogedig o'r Swistir, neu weithiwr hunangyflogedig o'r Swistir, sy'n gymwys i gael cyllid ôl-16. I gael rhagor o wybodaeth am y categorïau hyn, edrychwch ar yr Atodlen i Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007).

## Gweithiwr o Dwrci

Gwladolyn o wlad Twrci sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig.

## Haen 4

Categori mewnfudo sy'n berthnasol i bobl sy'n dod i'r DU i ddilyn cwrs astudiaeth mewn sefydliad addysgol yn y DU.

## Y DU a'r Ynysoedd

Sef y DU, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

## Caniatâd mewnfudo cysylltiedig â gwaith

Sef rhywun sydd â hawl i weithio yn y DU dan un o'r categorïau mewnfudo cysylltiedig â gwaith. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.ukba.homeoffice.gov.uk/visas-immigration/working/

## Atodiad B: Amserlen dros dro ar gyfer cyflawni yn 2015/16

| | |
|---|---|
| Mai 2014 | AdAS yn cyhoeddi canllawiau cynllunio cychwynnol ar gyfer ALlau a SABau, gan gynnwys blaenoriaethau Gweinidogol strategol ar gyfer 2015/16 ac adroddiadau ar ddarpariaeth rhaglenni, yn rhoi gwybodaeth am batrymau darparu cyfredol, wedi'i chasglu ar lefel rhaglen. |
| Medi 2014 | AdAS yn cyhoeddi canllawiau cynllunio wedi'u diweddaru ar gyfer ALlau a SABau, gan gynnwys cyfeiriadur rhaglenni wedi'i ddiweddaru a dadansoddiad o adroddiadau darpariaeth rhaglenni. |
| Hydref 2014 | AdAS yn cyhoeddi dyraniadau dangosol ar gyfer 2015–16 a 2015/16. |
| Tachwedd 2014 | ALlau a SABau yn cyflwyno cynlluniau darpariaeth dros dro ar gyfer 2014/15, ynghyd â proforma yn rhoi crynodeb o'u hymateb i flaenoriaethau gweinidogol 2015/16. |
| Tachwedd-Rhagfyr 2014 | Swyddogion AdAS yn cyfarfod ag ALlau a SABau i drafod cynlluniau darpariaeth dros dro. |
| Ionawr 2015 | AdAS yn cyhoeddi dyraniadau tair blynedd dros dro ar gyfer ALlau a SABau. ALlau a SABau yn cael Amodau Cyllido ar gyfer 2015/16. |
| Mawrth 2015 | ALlau a SABau yn cyflwyno cynlluniau darpariaeth terfynol ar gyfer 2015/16. |
| Ebrill 2015 | ALlau yn dechrau derbyn y cyntaf o 12 taliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2015–16. |
| Awst 2015 | SABau yn dechrau derbyn y cyntaf o 12 taliad ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16. |
| Tachwedd 2015 | Ciplun monitro mis Tachwedd ('rhewi' data mis Hydref), gan gynnwys cyfrif cynnar o ddysgwyr 2015/16 ar lefel rhaglen. |
| Mawrth 2016 | Ciplun monitro mis Mawrth ('rhewi' data mis Chwefror), gan gynnwys cyfrif canol blwyddyn o ddysgwyr 2015/16 ar lefel rhaglen. |
| Gorffennaf 2016 | Dychweleb data fanwl i oleuo'r broses fonitro diwedd blwyddyn. |
| Hydref 2016 | AdAS yn dechrau monitro darpariaeth rhaglenni 2015/16. |
| Mawrth 2017 | AdAS yn cyhoeddi data deilliannau dysgwyr ar gyfer 2015/16. |

# Atodiad C: Meysydd pwnc sector a'u categorïau ail haen

| Cod haen 1af | Disgrifiad haen 1af | Cod 2il haen | Disgrifiad 2il haen |
|---|---|---|---|
| 1 | Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal | 1.1 | Meddygaeth a Deintyddiaeth |
| | | 1.2 | Nyrsio a Phynciau a Galwedigaethau Cysylltiedig â Meddygaeth |
| | | 1.3 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| | | 1.4 | Gwasanaethau Cyhoeddus |
| | | 1.5 | Datblygiad a Lles Plant |
| 2 | Gwyddoniaeth a Mathemateg | 2.1 | Gwyddoniaeth |
| | | 2.2 | Mathemateg ac Ystadegau |
| 3 | Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofalu am Anifeiliaid | 3.1 | Amaethyddiaeth |
| | | 3.2 | Garddwriaeth a Choedwigaeth |
| | | 3.3 | Gofalu am Anifeiliaid a Gwyddoniaeth Filfeddygol |
| | | 3.4 | Cadwraeth Amgylcheddol |
| 4 | Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu | 4.1 | Peirianneg |
| | | 4.2 | Technolegau Gweithgynhyrchu |
| | | 4.3 | Gweithrediadau a Chynnal a Chadw Cludiant |
| 5 | Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig | 5.1 | Pensaernïaeth |
| | | 5.2 | Adeiladu ac Adeiladwaith |
| | | 5.3 | Cynllunio Trefol, Gwledig a Rhanbarthol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 6.1 | Ymarferwyr TGCh |
| | | 6.2 | TGCh i Ddefnyddwyr |
| 7 | Adwerthu a Mentrau Masnachol | 7.1 | Adwerthu a Chyfanwerthu |
| | | 7.2 | Gwaith Warws a Dosbarthu |
| | | 7.3 | Mentrau Gwasanaethu |
| | | 7.4 | Lletygarwch ac Arlwyo |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | Hamdden, Teithio a Thwristiaeth | 8.1 | Chwaraeon, Hamdden ac Adloniant |
| | | 8.2 | Teithio a Thwristiaeth |
| 9 | Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi | 9.1 | Celfyddydau Perfformio |
| | | 9.2 | Crefftau, y Celfyddydau Creadigol a Dylunio |
| | | 9.3 | Y Cyfryngau a Chyfathrebu |
| | | 9.4 | Cyhoeddi a Gwasanaethau Gwybodaeth |
| 10 | Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth | 10.1 | Hanes |
| | | 10.2 | Archeoleg a Gwyddoniaethau Archeolegol |
| | | 10.3 | Athroniaeth |
| | | 10.4 | Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol |
| 11 | Y Gwyddorau Cymdeithasol | 11.1 | Daearyddiaeth |
| | | 11.2 | Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol |
| | | 11.3 | Gwleidyddiaeth |
| | | 11.4 | Economeg |
| 12 | Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant | 12.1 | Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant Ynysoedd Prydain |
| | | 12.2 | Ieithoedd Eraill a Llenyddiaeth a Diwylliant Arall |
| 13 | Addysg a Hyfforddiant | 13.1 | Addysgu a Darlithio |
| | | 13.2 | Cefnogaeth Ddysgu Uniongyrchol |
| 14 | Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith | 14.1 | Sylfeini ar gyfer Dysgu a Bywyd |
| | | 14.2 | Paratoi ar gyfer Gwaith |
| 15 | Busnes, Gweinyddiaeth, Cyllid a’r Gyfraith | 15.1 | Cyfrifo a Chyllid |
| | | 15.2 | Gweinyddu |
| | | 15.3 | Rheoli Busnes |
| | | 15.4 | Marchnata a Gwerthiant |
| | | 15.5 | Y Gyfraith a Gwasanaethau Cyfreithiol |